



Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Modelu Effaith Codi'r Oedran Cyfranogiad i 18

Dr Matt Dickson

Sefydliad Ymchwil Polisi, Prifysgol Caerfaddon
Ionawr 2022



Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn helpu i wella'r broses o lunio polisiâu a gwasanaethau cyhoeddus trwy gefnogi gweinidogion ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i gael mynediad at dystiolaeth annibynnol drylwyr am yr hyn sy'n gweithio, a'i rhoi ar waith. Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr ac arbenigwyr polisi blaenllaw i gyfuno a defnyddio dystiolaeth sy'n bodoli eisoes a nodi bylchau lle mae angen cynhyrchu gwybodaeth newydd.

Mae'r Ganolfan yn annibynnol ar y llywodraeth ond yn gweithio'n agos gyda llunwyr polisi ac ymarferwyr i ddatblygu syniadau newydd ynghylch sut mae mynd i'r afael â heriau strategol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi a chyfrifoldebau datganoledig eraill. Mae'n:

- Cefnogi Gweinidogion Llywodraeth Cymru i nodi dystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol sy'n gallu helpu i lywio a gwella polisiâu, cael mynediad atynt a'u defnyddio;
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu, cynhyrchu, gwerthuso a defnyddio dystiolaeth ynghylch yr hyn sy'n gweithio o ran wrth fynd i'r afael â'r prif heriau economaidd a chymdeithasol; ac yn
- Thynnu ar ei gwaith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i hyrwyddo dealltwriaeth o sut gall dystiolaeth lywio a gwella'r broses o lunio polisi a gwasanaethau cyhoeddus a chyfrannu at ddamcaniaethau ynghylch llunio a gweithredu polisi.

Trwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i rhaglen Prentisiaethau Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn helpu i feithrin gallu ymysg ymchwilwyr i gymryd rhan mewn ymchwil sy'n berthnasol i bolisi sy'n cael effaith.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan drwy www.wcpp.org.uk

Cyllidwyr Craidd



Sefydlwyd Prifysgol Caerdydd yn 1883. Mae Caerdydd yn brifysgol uchelgeisiol ac arloesol sydd wedi'i lleoli mewn prifddinas ffyniannus, ac mae'n benderfynol o feithrin perthnasoedd rhyngwladol cadarn wrth iddi amlygu ei hymrwymiad i Gymru.



Economic and Social Research Council

Mae'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) yn rhan o Ymchwil ac Arloesedd y DU, sefydliad newydd sy'n dwyn ynghyd saith cyngor ymchwil y **DU, Innovate UK ac Research England i wneud y mwyaf o gyfraniad pob cyngor a chreu'r amgylchedd gorau i ymchwil ac arloesi ffynnu.**



Llywodraeth Cymru yw llywodraeth ddatganoledig Cymru, sy'n gyfrifol am feysydd allweddol o fywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol, a'r amgylchedd.

Cynnwys

Crynodeb	4
Crynodeb gweithredol	5
Cyflwyniad	7
Senario modelu canolog	9
Cam 1: Modelu cyfranogwyr ychwanegol	9
Cam 2: Modelu dewisiadau cwrs y cyfranogwyr ychwanegol	21
Cam 3: Modelu cyrhaeddiad erbyn diwedd Blwyddyn 13 ar gyfer y cyfranogwyr ychwanegol	34
Cam 4: Amcangyfrif gwerth economaidd gydol oes y cyraeddiadau ychwanegol hyn.	42
Dadansoddiad senarios amgen	49
Trafodaeth	62
Casgliad	67
Cyfeiriadau	69
Afodiad	71
Data	71
Carfanau	71
Methodoleg	72

Crynodeb

- Mae'r adroddiad hwn yn gwerthuso'n feintiol yr effeithiau tebygol ar gyfranogiad a chyrhaeddiad os codir yr oedran cyfranogi (RPA) mewn addysg neu hyfforddiant i 18 yng Nghymru. Mae'n ategu adroddiad cysylltiedig sy'n adolygu tystiolaeth ansoddol ar werth cyflwyno RPA yng Nghymru (Maguire, 2021).
- Gan ddefnyddio data ysgol ac addysg bellach cysylltiedig ar gyfer carfanau sy'n cwblhau blwyddyn 11 yn 2014 i 2017, amcangyfrifir effaith RPA i 18 ar gymryd rhan ym mlwyddyn 12 a blwyddyn 13 ar gyfer carfanau yn y dyfodol.
- Amcangyfrifir y llwybrau addysg ôl-16 ar gyfer pobl ifanc nad ydynt yn cymryd rhan ym mlwyddyn 12 a/neu flwyddyn 13 ar hyn o bryd ynghyd â'r cyraeddiadau tebygol y byddent yn eu cyflawni o'r addysg ychwanegol hon. Yna amcangyfrifir gwerth economaidd oes y cyraeddiadau ychwanegol hyn.
- Er mwyn hygyrchedd a rhwyddineb dealltwriaeth, rydym yn cyflwyno amcangyfrif senario canolog yn seiliedig ar yr hyn a gredwn yw rhagdybiaethau dibynadwy o ran cydymffurfio, cyrhaeddiad, dewisiadau cwrs, a gwerthoedd economaidd gydol oes. Fodd bynnag, mae cryn ansicrwydd ynghylch y tybiaethau, felly rydym yn cyflwyno amrywiaeth o senarios a chanlyniadau dibynadwy.
- Rydym yn canfod, yn seiliedig ar y senario modelu canolog (sy'n rhagdybio cydymffurfiaeth o 30%), y dylid gweithredu'r RPA yng Nghymru:
 - Byddai 3% ychwanegol o garfan yn cymryd rhan ym mlwyddyn 12 (~900 o fyfyrwyr) a 6% ychwanegol ym mlwyddyn 13 (~1,800 o fyfyrwyr).
 - Amcangyfrifir mai gwerth economaidd y cyraeddiadau ychwanegol y byddai'r cyfranogwyr newydd hyn yn eu hennill yw tua £36m y garfan, sy'n gynydd o 1.4% ar gyfanswm gwerth oes y cymwysterau y byddem yn eu disgwyl yn absenoldeb RPA.
- Mae'r manteision amcangyfrifedig hyn yn arbennig o sensitif i'r graddau y mae pobl ifanc yn cydymffurfio – rydym yn cynnwys canlyniadau ar gyfer senarios amgen o gydymffurfiaeth 5%-100%.
- Mae'r mwyafrif llethol o fanteision economaidd y polisi yn ymwneud â'r cyraeddiadau ychwanegol i fyfyrwyr na fyddent wedi cymryd rhan ym mlwyddyn 12 neu 13 o'r blaen.
- Er mai RPA oedd sail y model a'i ragdybiaethau, gellir defnyddio'r dadansoddiad i lywio polisiâu posibl eraill sy'n anelu at gynyddu cyfranogiad ac ymgysylltiad mewn addysg neu hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru (fel yr amlinellir yn Maguire, 2021).

Crynodeb gweithredol

Ar hyn o bryd, yr oedran addysg orfodol yng Nghymru yw 16 oed. Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP) archwilio effeithiau posibl codi'r oedran cyfranogi (RPA) i 18 oed. Adolygwyd y dystiolaeth o effaith RPA mewn gwledydd eraill mewn adroddiad WCPP diweddar (Maguire, 2021). Mae'r gwaith hwn yn ategu'r adroddiad hwnnw drwy amcangyfrif effeithiau posibl RPA ar gyfranogiad a chyrhaeddiad yng Nghymru, o'i gymharu â llinell sylfaen o lefelau cyfranogiad gwirfoddol disgwylidig yn 17 a 18 oed. Yna amcangyfrifir gwerth economaidd oes y cymwysterau ychwanegol a gafwyd gan y rheini a orfodwyd gan y polisi i aros mewn addysg neu hyfforddiant.

Er mwyn helpu i sicrhau bod y gwaith yn hygyrch, rydym wedi defnyddio senario modelu canolog sy'n gwneud yr hyn a gredwn yw'r tybiaethau mwyaf amddiffynadwy ar gyfer lefelau cydymffurfio â'r polisi, dewisiadau cwrs, cyfradd cyraeddiadau a gwerth economaidd oes y cymwysterau a enillwyd. Fodd bynnag, mae cryn ansicrwydd o hyd ynghylch nifer o'r tybiaethau ac felly rydym yn cyflwyno amrywiaeth o senarios dibynadwy a'u canlyniadau cysylltiedig.

Y prif ganfyddiad o'r senario canolog yw y byddai'r polisi, ar gyfer carfan nodweddiadol, yn gorfodi 900 o fyfyrwyr ychwanegol i gymryd rhan mewn addysg neu hyfforddiant ym mlwyddyn 12 a 1,800 ychwanegol ym mlwyddyn 13 o'i gymharu â'r cyfranogiad gwirfoddol a amcangyfrifir. Byddai'r cyfranogiad ychwanegol yn arwain at y niferoedd ychwanegol hyn:

- 70 o fyfyrwyr yn croesi'r trothwy 5A*-C mewn TGAU;
- 110 o fyfyrwyr yn ennill dau neu fwy o gymwysterau Safon Uwch;
- 115 o fyfyrwyr yn ennill cymwysterau galwedigaethol ar lefel 2;
- 220 o fyfyrwyr yn ennill cymwysterau galwedigaethol ar lefel 3;
- 120 o fyfyrwyr yn ennill prentisiaethau ar lefel 2; a
- 10 o fyfyrwyr yn ennill prentisiaethau ar lefel 3.

I roi hyn yn ei gyd-destun, rydym yn amcangyfrif, ymhlith y rhai sy'n dewis cymryd rhan ar gyfer y ddwy flynedd ar ôl 16 oed, y byddai 11,000 o fyfyrwyr sy'n ennill dau neu fwy o gymwysterau Safon Uwch a 2,800 a fyddai'n pasio'r trothwy TGAU 5A*-C. Mae cynyddu'r RPA yn gynydd o 1.0% yng nghyfraeddiadau'r garfan o ddwy safon Uwch neu fwy a chynnydd o 2.5% yng nghyrraeddiad trothwy allweddol TGAU.

Byddai cynyddu cydymffurfiaeth o'r 30% a ragdybiwyd yn y senario canolog i 50% yn gweld nifer y myfyrwyr sy'n cyrraedd 5A*-C TGAU yn cynyddu i 125 a'r nifer sy'n ennill dwy neu fwy Safon Uwch hyd at 245. Fodd bynnag, os oedd cydymffurfiaeth yn 30% ond dim ond 50% o gyfradd cyrhaeddiad myfyrwyr gwirfoddol tebyg oedd cyfradd cyrhaeddiad myfyrwyr yr RPA (yn hytrach na'r 66.7% a ragdybiwyd yn y senario canolog) yna mae'r nifer ychwanegol sy'n ennill 5A*-C TGAU yn gostwng i 55 ac ar gyfer dwy neu fwy o gymwysterau Safon Uwch mae'n 70.

O dan y senario canolog, y manteision economaidd ychwanegol sy'n deillio o'r RPA fyddai tua £36 miliwn fesul carfan o bobl ifanc yr effeithir arnynt gan y polisi. Amcangyfrifir mai gwerth y cymwysterau a enillwyd yn wirfoddol ym mlwyddyn 12 a 13 gan garfan nodweddiadol yw tua £2.55 biliwn, felly byddai'r RPA yn ychwanegu 1.4% at brisiad cymwysterau economaidd oes y garfan. Mae'r mwyafrif llethol o fanteision economaidd y polisi yn ymwneud â'r cyraeddiadau ychwanegol i fyfyrwyr na fyddent wedi cymryd rhan ym mlwyddyn 12 neu flwyddyn 13 o'r blaen. Mae'r ffigur cyffredinol hwn yn ystyried dim ond enillion y farchnad lafur i'r cymwysterau ychwanegol a enillwyd o ganlyniad i'r polisi – nid yw'n ystyried costau darparu'r addysg a'r hyfforddiant ychwanegol, na gwerth unrhyw fanteision ehangach eraill o gynyddu cyfranogiad addysgol o ran iechyd, lles, cyfranogiad dinesig a throseddau.

At hynny, bydd cyfranogiad, cyrhaeddiad a gwerth economaidd ychwanegol yr RPA i 18 yn amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar ffactorau fel y ffordd y gweithredir y polisi, y cymorth a roddir i'r cyfranogwyr ychwanegol, ac i ba raddau y mae'r bobl ifanc yr effeithir arnynt yn ymwneud â gofynion y polisi. Mae amrywio graddau'r cydymffurfio yn ein model yn gweld y gwerth economaidd yn cynyddu o £36m ar gyfer 30% o gydymffurfiaeth, hyd at £70m os yw'r cydymffurfiaeth yn 50%. Ar y llaw arall, byddai llai o gydymffurfiaeth o 15% yn awgrymu prisiad o £17m yn unig. Fel arall, byddai cadw cydymffurfiaeth ar 30% ond gostwng y gyfradd gyrhaeddiad i 50% yn awgrymu gwerth o £25m ar gyfer y cyraeddiadau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r set hon o dybiaethau. Ym mhob model, mae'r dadansoddiad yn awgrymu y byddai methu â darparu opsiynau i'r bobl ifanc y bydd y polisi'n effeithio arnynt i aros mewn addysg neu hyfforddiant yn arwain at gyraeddiadau ychwanegol dibwys a manteision economaidd bach yn gymesur. Gall hefyd effeithio ar eu cymhelliant yn y dyfodol i gymryd rhan mewn dysgu.

Nid yw'r amcangyfrifon o'r modelu wedi'u cyfyngu i gyflwyno'r RPA, ond yn hytrach maent yn dangos effeithiau mwy o gyfranogiad. Mae hyn yn golygu y bydd y canlyniadau'n berthnasol i'r RPA ac ar gyfer polisiâu eraill sy'n anelu at annog cyfranogiad ac ymgysylltiad mewn dysgu ôl-16, a/neu leihau'r niferoedd sy'n gadael yr ysgol yn gynnar (gweler Maguire, 2021 i gael rhagor o wybodaeth am y dystiolaeth sy'n ymwneud â'r pynciau hyn).

Cyflwyniad

O'r 30,602 o bobl ifanc yn cwblhau blwyddyn 11 yn 2017, mae 92% yn cymryd rhan mewn addysg neu hyfforddiant yn y flwyddyn academaidd ganlynol (blwyddyn 12) ac mae 82% yn cymryd rhan mewn addysg neu hyfforddiant yn y flwyddyn ar ôl hynny (blwyddyn 13). O'r herwydd, mae potensial i unrhyw newid mewn polisi effeithio ar nifer nad yw'n ddibwys o bobl ifanc sy'n anelu at gynyddu cyfranogiad mewn addysg neu hyfforddiant, yn enwedig ym mlwyddyn 13. Mae polisi'r RPA, fel y'i gweithredwyd yn Lloegr, yn wahanol i bolisïau ehangu addysg blaenorol fel Codi Oedran Gadael Ysgol 1947 a 1972 (RoSLA) a oedd yn mandadu blynyddoedd ychwanegol gorfodol o addysg yn yr ysgol uwchradd. Mae'r RPA yn ehangach: gallai'r addysg neu'r hyfforddiant ychwanegol gynnwys astudiaeth amser llawn mewn ysgol neu goleg, neu gyda darparwr hyfforddiant, ond gallai hefyd fod yn waith amser llawn neu wirfoddoli (20 awr yr wythnos neu fwy) ynghyd ag addysg neu hyfforddiant rhan-amser (tua diwrnod yr wythnos¹), neu brentisiaeth neu hyfforddeiaeth.

Er mwyn amcangyfrif gwerth ychwanegol mwy o gyfranogiad a yrrir gan RPA, mae'r adroddiad hwn yn modelu effaith bosibl y polisi mewn pedwar cam:²

1. modelu effaith y polisi ar gymryd rhan ym mlwyddyn 12 a blwyddyn 13;
2. modelu'r dewisiadau cwrs a wnaed gan y cyfranogwyr ychwanegol;
3. modelu'r cyraeddiadau erbyn diwedd blwyddyn 13 y cyfranogwyr ychwanegol; ac
4. amcangyfrif gwerth economaidd oes y cyraeddiadau ychwanegol hyn.

Mae'r effaith y gallai RPA ei chreu yn dibynnu'n bennaf ar y graddau y mae'r rhai na fyddent fel arall wedi dewis aros mewn addysg neu hyfforddiant y tu hwnt i ddiwedd blwyddyn 11 (16 oed) yn cydymffurfio â'r polisi, y cyrsiau y maent yn eu dewis, ac i ba raddau y maent yn cyflawni'r cymwysterau ychwanegol a gymerir. Felly, mae'r broses fodelu yn ei gwneud yn ofynnol i nifer o ragdybiaethau gael eu gwneud ynghylch:

¹ Y gofyniad statudol yw bod yn rhaid i addysg neu hyfforddiant rhan-amser a ddilynir ochr yn ochr â gwaith amser llawn gynnwys 280 o oriau cymhwyster cynlluniedig y flwyddyn sy'n arwain at gymwysterau rheoleiddiedig perthnasol.

² Mae'r dull modelu yma yn dilyn yn fras y dull a gymerwyd yn Hunt a McIntosh (2007) a amcangyfrifodd effaith bosibl codi'r oedran cyfranogi i 18 yn Lloegr.

2. lefel y cydymffurfio â'r polisi;
3. y dewis o gwrs y byddai myfyrwyr yn ei wneud – o ystyried eu dewis cyntaf yw gadael addysg a hyfforddiant;
4. y gyfradd cyrhaeddiad y byddai'r myfyrwyr hyn yn ei chyflawni ar y cyrsiau a ddewiswyd ganddynt; a'r
5. gwerth economaidd gydol oes y byddai'r cymwysterau ychwanegol hyn yn ei roi.

Yn seiliedig ar y llenyddiaeth ymchwil ac yn enwedig y dystiolaeth ansoddol yn y maes hwn (gweler Maguire, 2021), rydym wedi dewis yr hyn a gredwn yw'r tybiaethau mwyaf credadwy ym mhob un o'r pedwar maes hyn i ddarparu amcangyfrif senario canolog. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r ffaith bod y sylfaen dystiolaeth ei hun yn gyfyngedig ac mae cryn dipyn o ansicrwydd o hyd ynghylch rhai o baramedrau'r model, rydym yn cyflwyno ystod o senarios amgen dibynadwy yn ddiweddarach lle mae'r tybiaethau sylfaenol yn amrywio. Mae hyn yn darparu amrywiaeth o ganlyniadau dibynadwy i'r polisi. Byddai'r canlyniad a wireddwyd yn dibynnu'n rhannol ar y ffordd y caiff y polisi ei weithredu, polisiâu ategol eraill a allai gael eu cyflwyno, a sut mae hyn yn pennu gwerthoedd y paramedr ym mhob un o'r meysydd lle mae'n rhaid i ni wneud tybiaethau modelu.

Mae'r camau modelu a'r tybiaethau ar gyfer pob un wedi'u crynhoi yn Ffigur 1 – rhoddir rhagor o fanylion am sut y cyrhaeddwyd y tybiaethau hyn yn yr adrannau isod.

Ffigur 1: Camau modelu, rhagdybiaethau sylfaenol a rhagdybiaethau a ddewiswyd ar gyfer y senario modelu canolog

	Cam 1	Cam 2	Cam 3	Cam 4
Camau modelu	Effaith y polisi ar gyfranogiad ym mlwyddyn 12 a blwyddyn 13	Y dewisiadau cwrs a wnaed gan y cyfranogwyr ychwanegol	Cyraeddiadau erbyn diwedd blwyddyn 13 y cyfranogwyr ychwanegol	Gwerth economaidd gydol oes y cyraeddiadau ychwanegol hyn
Rhagdybiaethau	Lefel y cydymffurfio â'r polisi	Y dewis cwrs y byddai'r myfyrwyr yn ei wneud	Y gyfradd cyrhaeddiad y byddai'r myfyrwyr hyn yn ei chyflawni ar y cyrsiau a ddewiswyd ganddynt	Gwerth economaidd gydol oes y byddai'r cymwysterau ychwanegol hyn yn ei roi
Senario canolog	30% yn cydymffurfio	Dosbarthiad llwybrau cymwysterau: yn unol â'r grŵp cymharu Canran y swyddi sy'n dod yn brentisiaethau: 25%	Cyfradd cyrhaeddiad: 66.7%	Prisiad economaidd o gymwysterau o gymharu â chyfranogwyr gwirfoddol: 50%

Senario modelu canolog

Y man cychwyn ar gyfer modelu effeithiau posibl RPA yng Nghymru yw amcangyfrif effaith y polisi ar gymryd rhan mewn addysg neu hyfforddiant.³ Ar hyn o bryd mae myfyrwyr yn perthyn i bedwar grŵp posibl o ran yr hyn y maent yn dewis ei wneud ar ôl 16 oed:

1. Cymryd rhan mewn addysg/hyfforddiant ym mlwyddyn 12 a blwyddyn 13;
2. Cymryd rhan ym mlwyddyn 12 ond nid blwyddyn 13;
3. Peidio â chymryd rhan ym mlwyddyn 12 na blwyddyn 13; neu
4. Gadael addysg/hyfforddiant ym mlwyddyn 12 ond dychwelyd i gymryd rhan ym mlwyddyn 13.

³ Nodir y sail ar gyfer y dull modelu a thrafod dulliau amgen yn yr adran fethodoleg yn yr Atodiad.

O'r herwydd, gellir crynhoi effaith bosibl polisi'r RPA i 18 fel y dangosir yn Ffigur 2.

Ffigur 2: Grwpiau cyfranogiad ôl-16 posibl ac effaith bosibl ar bolisi


	Grŵp 1	Grŵp 2	Grŵp 3	Grŵp 4
Cymryd rhan yn wirfoddol ym mlwyddyn 12	✓	✓	✗	✗
Cymryd rhan yn wirfoddol ym mlwyddyn 13	✓	✗	✗	✓
Blynyddoedd ychwanegol posibl	0	1	2	1

Er mwyn modelu'r cyfranogwyr ychwanegol sy'n deillio o'r polisi, mae angen inni amcangyfrif yn gyntaf ddosbarthiad myfyrwyr ar draws y pedwar grŵp hyn yn absenoldeb RPA. Yn benodol, mae angen i ni amcangyfrif nifer y myfyrwyr a fyddai, drwy ddewis, yng ngrwpiau 2, 3 neu 4 (h.y. y rhai a fyddai'n dewis peidio â chwblhau blwyddyn 12 a blwyddyn 13). Er mwyn gwneud hyn, rydym yn archwilio'r duedd mewn cyfranogiad a welwyd dros garfanau diweddar ac yn benodol dosbarthiad myfyrwyr ar draws y pedwar grŵp.⁴

Mae Ffigur 3 yn dangos y cyfraddau cyfranogi diweddar ar gyfer carfanau a ddiffinnir erbyn y flwyddyn y maent yn cwblhau Cyfnod Allweddol 4 yn 16 oed – hynny yw, y flwyddyn y maent yn gorffen addysg orfodol gyda'r rhan fwyaf yn sefyll eu harholiadau TGAU.

⁴ Drwy gydol y dadansoddiad rydym yn defnyddio data o Gronfa Ddata Genedlaethol Disgyblion Cymru, y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, y Casgliad Data Ôl-16 a Chofnod Dysgu Gydol Oes Cymru. Ceir manylion llawn y blynyddoedd a ddefnyddir yn yr Atodiad.

Ffigur 3: Cyfranogiad gwirioneddol a rhagweladwy ym mlwyddyn 12 a blwyddyn 13 gan garfan CA4



Fel y gwelir yn Ffigur 3, mae cymryd rhan ym mhob blwyddyn wedi bod yn sefydlog i raddau helaeth ar gyfer y pedair carfan a gwblhaodd CA4 yn 2014-2017. Dyma'r carfanau diweddaraf yr ydym yn gwybod am eu gweithgarwch a'u cyrhaeddiad ym mlwyddyn 12 a blwyddyn 13. Mae cymryd rhan ym mlwyddyn 12 wedi bod 91%-92% yn gyson, ond ar duedd ychydig am i lawr, tra bod cyfranogiad ym mlwyddyn 13 wedi bod 82%-83%, unwaith eto ar duedd ychydig am i lawr. Gan ddefnyddio model atchweliad llinelllog⁵ gallwn ddefnyddio'r data a arsylwyd i ragweld cyfran y myfyrwyr a fyddai'n cymryd rhan ym mhob blwyddyn pe bai'r tueddiadau bach hyn yn parhau ar eu llwybrau presennol. Mae Tabl 1 yn cynnwys yr amcangyfrifon sy'n deillio o'r rhagfynegiad hwn.

⁵ Amcangyfrifir model atchweliad llinelllog ar ddata o garfanau sy'n cwblhau CA4 rhwng 2014 a 2017, gyda thuedd amser llinelllog yn unig. Roedd caniatáu tuedd amser cwadratig fwy hyblyg yn gwneud gwahaniaeth dibwys i'r gwerthoedd a ragwelwyd.

Tabl 2: Cyfranogiad gwirioneddol a rhagweladwy ym mlwyddyn 12 a blwyddyn 13

Blwyddyn 12

Blwyddyn CA4	N	% gwirioneddol	% a ragwelir	Effaith polisi ar bwyntiau %	Effaith polisi ar nifer myfyrwyr
2014	33,649	92.52	92.52	7.48	2,518
2015	32,413	92.17	92.21	7.79	2,524
2016	31,203	91.99	91.91	8.09	2,524
2017	30,602	91.57	91.61	8.39	2,569
2018	29,432		91.30	8.70	2,560
2019	30,250		91.00	9.00	2,723
2020	31,606		90.70	9.30	2,941
2021	31,983		90.39	9.61	3,073
2022	33,165		90.09	9.91	3,287

Blwyddyn 13


Blwyddyn CA4	N	% gwirioneddol	% a ragwelir	Effaith polisi ar bwyntiau %	Effaith polisi ar nifer myfyrwyr
2014	33,649	83.73	83.83	16.17	5,442
2015	32,413	83.27	83.32	16.68	5,408
2016	31,203	83.18	82.80	17.20	5,366
2017	30,602	82.05	82.29	17.71	5,419
2018	29,432		81.78	18.22	5,362
2019	30,250		81.27	18.73	5,666
2020	31,606		80.76	19.24	6,082
2021	31,983		80.25	19.75	6,318
2022	33,165		79.74	20.26	6,721

Ffynhonnell: cyfrifiadau'r awdur gan ddefnyddio Cronfa Ddata Genedlaethol Disgyblion Cymru, y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, y Casgliad Data Ôl-16 a Chofnod Dysgu Gydol Oes Cymru.

Mae'r model cyfranogiad rhagfynegol yn awgrymu y byddai polisi'r RPA o bosibl yn cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n cymryd rhan mewn addysg neu hyfforddiant tua 3,000 ym mlwyddyn 12 a thua 6,000 ym mlwyddyn 13, ar gyfer pob carfan yr effeithir arni.

Ar gyfer y cam nesaf o fodelu, mae angen rhannu'r cyfraddau cyfranogiad a'r niferoedd cyffredinol i'r gwahanol grwpiau a grybwyllwyd uchod (h.y. y rhai sy'n cymryd rhan yn wirfoddol mewn dim, un neu ddwy flynedd ar ôl 16). Unwaith eto, gellir gwneud hyn gan ddefnyddio modelau atchweliad llinelllog a amcangyfrifir ar y data ar gyfer y carfanau diweddaraf sy'n cwblhau Cyfnod Allweddol 4, gan ganiatáu i ni ragweld aelodaeth y grŵp ar gyfer sawl carfan yn y dyfodol.⁶

Ffigur 4: Patrwm cyfranogiad gwirioneddol a rhagweladwy gan garfan CA4



Mae Ffigur 4 yn dangos, yn yr un modd â'r patrymau cyfranogiad cyffredinol ym mlynnyddoedd 12 a 13, fod dosbarthiad myfyrwyr ar draws grwpiau wedi aros yn sefydlog dros garfanau diweddar gydag ansefydlogrwydd dibwys o amgylch y duedd gyson.

⁶ Amcangyfrifir modelau atchweliad llinelllog ar wahân ar gyfer aelodaeth o bob grŵp, ym mhob achos gan gynnwys tuedd amser llinelllog yn unig.

Tabl 2: Aelodaeth grŵp gwirioneddol a rhagweladwy

		Grŵp 1 (ydy, nac ydy)				Grŵp 2 (ydy, nac ydy)			
Blwyddyn CA4		% gwirioneddol	% a ragwelir	Gwirioneddol	Rhagwelwyd	% gwirioneddol	% a ragwelir	Gwirioneddol	Rhagwelwyd
2014	33,649	82.54	82.67	27,775	27,818	9.97	9.85	3,356	3,313
2015	32,413	82.26	82.21	26,662	26,647	9.92	10.00	3,214	3,242
2016	31,203	82.04	81.75	25,600	25,509	9.95	10.16	3,104	3,170
2017	30,602	81.08	81.29	24,813	24,877	10.48	10.31	3,208	3,156
2018	29,432		80.83		23,791		10.47		3,082
2019	30,250		80.37		24,313		10.63		3,214
2020	31,606		79.91		25,258		10.78		3,408
2021	31,983		79.45		25,412		10.94		3,498
2022	33,165		79.00		26,199		11.09		3,679

		Grŵp 3 (nac ydy, nac ydy)				Grŵp 4 (nac ydy, ydy)			
Blwyddyn CA4		% gwirioneddol	% a ragwelir	Gwirioneddol	Rhagwelwyd	% gwirioneddol	% a ragwelir	Gwirioneddol	Rhagwelwyd
2014	33,649	6.30	6.33	2,119	2,129	1.19	1.16	399	389
2015	32,413	6.81	6.68	2,208	2,166	1.02	1.10	329	358
2016	31,203	6.87	7.04	2,143	2,196	1.14	1.05	356	328
2017	30,602	7.46%	7.39	2,284	2,263	0.97	1.00	297	306
2018	29,432		7.75		2,281		0.95		279
2019	30,250		8.10		2,452		0.90		271
2020	31,606		8.46		2,674		0.84		267
2021	31,983		8.82		2,819		0.79		253
2022	33,165		9.17		3,041		0.74		245


Ffynhonnell: cyfrifiadau'r awdur gan ddefnyddio Cronfa Ddata Genedlaethol Disgyblion Cymru, y Cyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar Lefel Disgyblion, y Casgliad Data Ôl-16 a Chofnod Dysgu Gydol Oes Cymru.

Mae'r model yn awgrymu, ar gyfer carfanau yn y dyfodol, y byddai tua:

- 79% yn dewis aros ym mlwyddyn 12 a blwyddyn 13 yn wirfoddol (aelodaeth grŵp 1);
- 11% arall yn aros ar gyfer blwyddyn 12 yn unig (grŵp 2);
- ychydig o dan 1% yn gadael ym mlwyddyn 12 ond yn dychwelyd i addysg neu hyfforddiant ym mlwyddyn 13 (grŵp 4); a
- byddai'r 9% arall o bob carfan yn gadael addysg a hyfforddiant yn 16 oed ac yn peidio â chymryd rhan yn ystod blwyddyn 12 neu flwyddyn 13 (grŵp 3).

Dangosir yr amcangyfrifon hyn yn Ffigur 5.

Ffigur 5: Amcangyfrif o'r dadansoddiad o'r cyfranogwyr ychwanegol a ragwelir yn ôl grŵp a blwyddyn, carfan yn cwblhau CA4 yn 2020



Mae cymhwyso rhagfynegiadau'r model i'r garfan a gwblhaodd CA4 yn 2020 yn rhoi'r canlyniadau a ddangosir yn Nhabl 3.

Tabl 3: Y cyfranogwyr ychwanegol a ragwelir yn ôl grŵp a blwyddyn, carfan yn cwblhau CA4 yn 2020


	Cymryd rhan ym mlwyddyn 12	Cymryd rhan ym mlwyddyn 13
Grŵp 2	Eisoed yn cymryd rhan	3,408
Grŵp 3	2,674	2,674
Grŵp 4	267	Eisoed yn cymryd rhan
Cynnydd	2,941	6,082

Ffynhonnell: cyfrifiadau'r awdur gan ddefnyddio Cronfa Ddata Genedlaethol Disgyblion Cymru, y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, y Casgliad Data Ôl-16 a Chofnod Dysgu Gydol Oes Cymru.

Fodd bynnag, mae'r ffigurau hyn yn tybio y byddai pawb nad ydynt yn cymryd rhan ar hyn o bryd yn gwneud hynny ar ôl cyflwyno RPA. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r ymchwil ansoddol yn y maes hwn (gweler Maguire, 2021) byddai'n dybiaeth feiddgar y byddai'r rhai y mae eu dewis cyntaf i adael addysg neu hyfforddiant ym mlwyddyn 12 a/neu flwyddyn 13 i gyd yn cydymffurfio'n wirfoddol â'r gofyniad newydd. O'r herwydd, drwy gydol y modelu rydym yn caniatáu ar gyfer amrywiaeth o raddau o

gydymffurfiad â'r polisi, yn amrywio o 100% yn cydymffurfio a gynrychiolir uchod, i lawr i ddim ond 5% yn cydymffurfio. Mae gan amrywio'r ganran gydymffurfio oblygiadau pwysig i ganlyniadau'r polisi, yn gyntaf o ran nifer y cyfranogwyr ychwanegol, fel y dangosir yn Ffigur 6 (mae Atodiad Tabl A5 yn dangos y niferoedd cyfatebol ar gyfer carfanau yn y dyfodol).

Ffigur 6: Y cyfranogwyr ychwanegol a ragwelir yn ôl blwyddyn, carfan yn cwblhau CA4 yn 2020, amrywio yn ôl maint y cydymffurfio



Pe bai dim ond 5% o'r cyfranogwyr ychwanegol posibl yn ymgysylltu â'r polisi, yna dim ond tua 150 (blwyddyn 12) a 300 (blwyddyn 13) yn fwy o fyfyrwyr a fyddai mewn addysg neu hyfforddiant o ganlyniad i'r RPA. Byddai sicrhau lefel o ymgysylltu â'r polisi fel bod 30% o'r rhai yr effeithir arnynt o bosibl yn parhau mewn addysg neu hyfforddiant yn gweld bron i 900 o gyfranogwyr ychwanegol ym mlwyddyn 12, a thua dwbl hynny ym mlwyddyn 13. Ym mlwyddyn 12 daw'r mwyafrif helaeth o gyfranogwyr ychwanegol o'r grŵp a fyddai'n dewis peidio â chymryd rhan naill ai ym mlwyddyn 12 neu flwyddyn 13 (grŵp 3), ac mae'r myfyrwyr hyn yn ffurfio ychydig o dan hanner y myfyrwyr ychwanegol ym mlwyddyn 13. O'r herwydd, bydd cysylltu'r myfyrwyr hyn â'r polisi yn allweddol o ran sicrhau lefel uwch o gydymffurfiaeth, ac eto mae'r llenyddiaeth ymchwil ansoddol yn y maes hwn yn tynnu sylw dro ar ôl tro at anhawster cyrraedd y grŵp hwn a'i gynnwys yn y cynnig addysg neu hyfforddiant ôl-16 (gweler Maguire, 2021). Yng ngoleuni hyn, **bydd ein senario modelu canolog yn rhagdybio lefel o gydymffurfiaeth o 30%**, sydd, yn ein barn ni, yn gredadwy, fodd bynnag, o ystyried yr ansicrwydd ynghylch cydymffurfio yn y dyfodol, drwy gydol yr adroddiad rydym hefyd yn cyflwyno'r amcangyfrifon sy'n gysylltiedig â chydymffurfio ar werthoedd uwchlaw ac islaw'r ffigur hwn.

Nodweddion myfyrwyr yn ôl grŵp

Cyn symud ymlaen i gam nesaf y modelu, mae'n werth tynnu sylw at wahanol nodweddion y myfyrwyr sy'n dewis yn wirfoddol i bob grŵp gan fod gan hyn oblygiadau pwysig ar gyfer camau dilynol y modelu a phrisio economaidd cymwysterau RPA ychwanegol.

Tabl 4: Cyrhaeddiad blaenorol a nodweddion demograffig-gymdeithasol yn ôl grŵp, carfanau yn cwblhau CA4 yn 2014-2017

Grŵp	5A*-G (TGAU/ cyfatebol)	5 TGAU A*-G	5 A*-C (TGAU/ cyfatebol)	5A*-C yn cynnwys CSM	5A*-A (TGAU/ cyfatebol)	TGAU 5 A*-C	A*-C MSciE W	Pwyntia u	Pwyntia u wedi'u capio (9)	TGAU Gwydd . A*-C	TGAU Mathemate g A*-C	TGAU Saes. A*-C
1	0.9823	0.8942	0.8562	0.6392	0.1902	0.6348	0.6125	546.61	351.991 4	0.885 9	0.6999	0.742 8
2	0.9356	0.7336	0.6522	0.3302	0.0291	0.3015	0.3014	433.22	302.235 7	0.771 9	0.4155	0.481 1
3	0.8221	0.6652	0.5914	0.3719	0.1118	0.3589	0.3521	407.61	283.388 8	0.769 7	0.4827	0.522 3
4	0.8320	0.6545	0.5807	0.3157	0.0362	0.2782	0.2882	385.22	276.852 0	0.737 4	0.4251	0.492 2
<i>Cyfanswm</i>	<i>0.9650</i>	<i>0.8607</i>	<i>0.8146</i>	<i>0.5862</i>	<i>0.1670</i>	<i>0.5799</i>	<i>0.5599</i>	<i>523.93</i>	<i>341.477 4</i>	<i>0.866 5</i>	<i>0.6551</i>	<i>0.700 7</i>
Grŵp	benyw	Prydau ysgol am ddim erioed	SIY erioed	AAA erioed	Datganiad AAA erioed	Gwladolyn Cymru ID	Siaradwyr Cymraeg rhugl	Dim Cymraeg	Astudio Cymraeg iaith gyntaf	Astudiaeth Cymraeg ail iaith		
1	0.5025	0.2558	0.0503	0.3665	0.0293	0.8790	0.1833	0.4019	0.1862	0.8138		
2	0.4395	0.4228	0.0343	0.5208	0.0333	0.8554	0.1305	0.4282	0.1286	0.8714		
3	0.4118	0.3630	0.0542	0.5274	0.0973	0.7986	0.1180	0.3905	0.1216	0.8784		
4	0.4294	0.4012	0.0514	0.5322	0.0782	0.8371	0.1224	0.3943	0.1155	0.8845		
<i>Cyfanswm</i>	<i>0.4892</i>	<i>0.2815</i>	<i>0.0489</i>	<i>0.3948</i>	<i>0.0349</i>	<i>0.8706</i>	<i>0.1731</i>	<i>0.4037</i>	<i>0.1756</i>	<i>0.8244</i>		

Grŵp	Gwyn	Du	Asiaidd	Ethnigrwydd cymysg	Ethnigrwydd arall
1	0.9394	0.0076	0.0223	0.0209	0.0099
2	0.9570	0.0039	0.011	0.0212	0.0069
3	0.9418	0.0084	0.0156	0.0232	0.0110
4	0.9513	0.0029	0.0181	0.0182	0.0094
<i>Cyfanswm</i>	<i>0.9415</i>	<i>0.0072</i>	<i>0.0207</i>	<i>0.0210</i>	<i>0.0097</i>

Degraddau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Grŵp	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	N
1	0.105	0.103	0.099	0.103	0.092	0.099	0.100	0.092	0.100	0.107	104350
2	0.164	0.131	0.119	0.114	0.092	0.087	0.090	0.074	0.071	0.058	12794
3	0.127	0.102	0.095	0.087	0.090	0.108	0.134	0.113	0.080	0.066	8460
4	0.114	0.127	0.111	0.098	0.105	0.105	0.115	0.086	0.075	0.063	1365
<i>Cyfanswm</i>	<i>0.112</i>	<i>0.106</i>	<i>0.101</i>	<i>0.103</i>	<i>0.092</i>	<i>0.098</i>	<i>0.101</i>	<i>0.092</i>	<i>0.096</i>	<i>0.099</i>	<i>126969</i>

Ffynhonnell: cyfrifiadau'r awdur gan ddefnyddio Cronfa Ddata Genedlaethol Disgyblion Cymru, y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, y Casgliad Data Ôl-16 a Chofnod Dysgu Gydol Oes Cymru. Yn seiliedig ar y garfan yn cwblhau CA4 2014-2017.

Dengys Tabl 4 y cyrhaeddiad blaenorol a'r nodweddion demograffig-gymdeithasol wedi'u dadansoddi yn ôl grŵp. Fel y byddem yn ei ddisgwyl, mae'r myfyrwyr sy'n dewis aros mewn addysg am ddwy flynedd ôl-16 (grŵp 1) yn cael eu dewis yn gadarnhaol o ran eu cyrhaeddiad blaenorol yn CA4: Mae 63.5% yn cyrraedd 5A*-C TGAU, sy'n sylweddol uwch nag ar gyfer myfyrwyr yng ngrwpiau 2, 3 a 4 y mae eu ffigurau cyfatebol yn 30.2%, 35.9% a 27.8% yn y drefn honno. Adlewyrchir y canrannau cymharol hyn mewn metrigau eraill lle mae gan grŵp 1 y cyrhaeddiad uchaf ond ymhlith grwpiau 2, 3 a 4 yn aml myfyrwyr yng ngrŵp 3 sy'n dewis peidio â chymryd rhan mewn addysg neu hyfforddiant yn y ddwy flynedd ôl-16 sydd â chyrhaeddiad uwch na grwpiau 2 a 4 sy'n dewis bod mewn addysg neu hyfforddiant am o leiaf un o'r ddwy flynedd gyntaf ôl-16. Mae hyn yn arbennig o wir am fetrigau sy'n seiliedig yn fwy cul ar gyrhaeddiad TGAU. Fodd bynnag, mae'r metrigau sy'n caniatáu ar gyfer TGAU a chymwysterau cyfatebol yn aml yn gweld grŵp 2 yn cael cyrhaeddiad uwch na grwpiau 3 neu 4. Heblaw grŵp 1, nid yw'n syml rhagweld aelodaeth y grwpiau eraill ar sail cyrhaeddiad blaenorol yn unig.

O ran rhywedd, mae merched yn cael eu gorgynrychioli yng ngrŵp 1, ac yn cael eu tangynrychioli'n fawr yn y grwpiau eraill. Mae bechgyn yn cyfrif am fwy na 58% o'r rhai yng ngrŵp 3 ac maent yn 57% o grŵp 4 a 56% o grŵp 2, er dim ond 51% o gyfanswm y grŵp o fyfyrwyr. Grŵp 3 yw'r rhai mwyaf tebygol o fod wedi cael eu hystyried o gwbl yn ddisgyblion Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) yn ystod eu gyrfa ysgol ac maent yn llawer mwy tebygol o fod wedi cael Datganiad AAA. Grŵp 3 hefyd yw'r mwyaf tebygol o fod yn fyfyrwr 'Saesneg fel Iaith Ychwanegol' (SIY) yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Fel y gallem ddisgwyl, myfyrwyr grŵp 1 yw'r lleiaf tebygol o bell ffordd o fod wedi bod erioed yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim yn ystod eu hamser yn yr ysgol, ac maent yn fwyaf tebygol o fod yn rhugl yn y Gymraeg ac yn lleiaf tebygol o fod heb unrhyw sgiliau Cymraeg. Myfyrwyr Grŵp 2 yw'r rhai mwyaf tebygol o fod wedi bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn ystod eu gyrfa yn yr ysgol.

Gallwn hefyd edrych ar gefndir myfyrwyr o ran lefel yr amddifadedd yn yr ardal y maent yn byw ynddi, gan ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) – gweler panel is Tabl 4. Gwelwn fod myfyrwyr yng ngrŵp 1 yn cael eu dosbarthu'n gyfartal ar draws degraddau MALIC, ond mae'r dosbarthiad cyfartal hwn yn cael ei gyferbynnu gan grwpiau 2, 3 a 4, sy'n adlewyrchu bod myfyrwyr grŵp 1 yn gymharol fwy breintiedig na'r grwpiau eraill. Ar gyfer y grwpiau eraill, mae tangynrychiolaeth yn y degradd uchaf un (myfyrwyr sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig), gyda dim ond 6% o bob grŵp yn y degradd hwn, o'i gymharu ag ychydig dros 10% ar gyfer myfyrwyr grŵp 1. Yn yr un modd, mae myfyrwyr yng ngrwpiau 2, 3 a 4 wedi'u gorgynrychioli yn y degraddau is, yn enwedig grŵp 2, gydag 16% o fyfyrwyr y grŵp hwn yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru, a 13% arall yn y degradd nesaf i fyny.

Mae gan Grŵp 2 gyfran uwch o fyfyrwyr na grŵp 3 neu 4 ar gyfer pob degradd yn hanner isaf MALIC, a llai ar gyfer pob degradd yn yr hanner uchaf. Mae hyn yn adleisio'r canfyddiad am gymhwysedd prydau ysgol am ddim ac yn awgrymu mai myfyrwyr Grŵp 2 yw'r rhai mwyaf tebygol o ddod o deuluoedd llai breintiedig.

O ran cyfansoddiad ethnig, ac eithrio 'Ethnigrwydd cymysg', mae pob ethnigrwydd ac eithrio 'Gwyn' yn cael ei orgynrychioli yng ngrŵp 1, tra bod ethnigrwydd 'Gwyn' yn cael ei dangynrychioli yng ngrŵp 1 a'i orgynrychioli ym mhob grŵp arall.

I grynhoi, er ei bod yn amlwg bod dewis i grŵp 1 ar sail cyrhaeddiad blaenorol a nodweddion demograffig-gymdeithasol, ar gyfer grwpiau 2, 3 a 4, mae'r cydberthnasau'n wannach ac yn llai syml i'w mapio. Trafodir y canfyddiad hwn ymhellach yn adran fethodoleg yr atodiad sy'n nodi'r rhesymeg y tu ôl i'n manyleb enghreifftiol ynglŷn â dewisiadau amgen. Mae'n ymddangos, o'i gymharu â grwpiau 3 a 4, fod y myfyrwyr yng ngrŵp 2, sy'n dewis aros am flwyddyn yn unig ôl-16, yn fwy tebygol o fod â chyfran uwch o'u cyraeddiadau mewn cymwysterau sy'n cyfateb i TGAU yn hytrach na TGAU ac yn fwy tebygol o fod o gefndir llai breintiedig. Mae gan fyfyrwyr Grŵp 3 fwy o gyrhaeddiad mewn cymwysterau TGAU na grŵp 2, ond cyrhaeddiad is yn gyffredinol ac mae'r grŵp hefyd yn cynnwys myfyrwyr sy'n fwy tebygol o fod ag Anghenion Addysgol Arbennig, a Saesneg fel iaith ychwanegol. Bydd y cymhlethdod hwn yn bwysig wrth lywio'r dewis o grŵp cymharu i'w ddefnyddio ar gyfer amcangyfrif llwybrau cymwysterau a chyrhaeddiad myfyrwyr yng ngrwpiau 2 i 4 a fydd yn cael eu gorfodi gan bolisi'r RPA i aros mewn addysg neu hyfforddiant.⁷

Er bod patrymau aelodaeth grŵp a rhagfynegiadau hyn ar gyfer carfanau yn y dyfodol yn debyg iawn i raddau helaeth i fechgyn a merched gyda chanlyniadau cyfun a ddangosir yma er byrddra (Mae Tablau Atodiad A1-A4 yn ailadrodd yr holl dablau disgrifiadol hyd yn hyn ar wahân yn ôl rhywedd), er mwyn rhagweld mor gywir â phosibl, mae'r holl fodelu ym mhob cam yn cael ei wneud ar wahân yn ôl rhywedd.

⁷ Fel yr amlinellir yn adran fethodoleg yr atodiad, ceisiodd y model cychwynnol ddefnyddio'r ystod o wybodaeth cyrhaeddiad blaenorol (hyd at 14 oed) a chymdeithasol-ddemograffig sydd ar gael ar gyfer carfanau blaenorol i ragweld aelodaeth grŵp ar gyfer y carfanau yn y dyfodol, a fyddai'n caniatáu modelu rhagfynegiadau lefel unigol o gyrhaeddiad grŵp ac yn y dyfodol. Fodd bynnag, hyd yn oed gydag ystod lawn o ragfynegyddion, gallai'r model esbonio dim ond 6% i 7% o'r amrywiad mewn aelodaeth grŵp. Wrth gymharu nodweddion cymedrig aelodau gwirioneddol y grŵp ac aelodau'r grŵp a ragwelwyd, dangoswyd, ar wahân i grŵp 1, nad oedd y model yn gallu nodweddu'r grwpiau'n gywir o ran eu nodweddion a arsylwyd, gan awgrymu bod nodweddion na ellir eu gweld yn chwarae rhan bwysig wrth bennu dewis grŵp. Mae hyn yn rhywbeth yr ydym yn ceisio'i ystyried mewn camau modelu dilynol gan fod y rhai sy'n dewis bod yng ngrwpiau 2, 3 a 4 yn wahanol mewn ffyrdd na ellir eu gweld i fyfyrwyr sydd â nodweddion tebyg y gellir eu gweld sy'n dewis grŵp amgen.

Cam 2: Modelu dewisiadau cwrs y cyfranogwyr ychwanegol

Mae cam nesaf y modelu yn golygu amcangyfrif y math o lwybrau addysg a chymwysterau y mae'r cyfranogwyr ychwanegol yn ymgymryd â nhw. Cyn modelu hyn, rydym yn tybio'n gyntaf fod rhai o'r rhai nad ydynt yn cymryd rhan mewn addysg neu hyfforddiant yn y naill flwyddyn neu'r llall (grŵp 3) yn cael eu cyflogi mewn swyddi sydd â rhyw elfen hyfforddi, ond hyfforddiant nad yw'n arwain at gymhwyster achrededig ffurfiol. O ganlyniad, nid yw'r unigolion hyn yn ymddangos fel dysgwyr yn nata Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (CDGOC).

Yn seiliedig ar gyfraddau plant nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) ar gyfer Cymru o gymharu â maint y rhai cyfatebol nad ydynt yn cymryd rhan mewn addysg neu hyfforddiant o ddata'r ysgolion a CDGOC, amcangyfrifwn fod 25% o'n rhai nad ydynt yn cyfranogi yn cael eu cyflogi.⁸ Yn seiliedig ar dystiolaeth ansoddol ar swyddi heb hyfforddiant (Maguire, 2021) rydym yn rhagdybio y byddai cyfran o'r swyddi hyn (yr ydym yn eu gosod ar 25%) **yn cael eu trosi'n brentisiaethau lefel 2 ac felly'n eithrio'r unigolion hyn rhag modelu cyfranogwyr a chyrhaeddiadau ychwanegol myfyrwyr yr RPA. Yn hytrach, rydym yn tybio eu bod yn cyflawni prentisiaeth lefel 2 ar yr un gyfradd ag unigolion yn y grŵp cymharu sy'n dilyn prentisiaeth lefel 2. Yna byddwn yn ychwanegu gwerth y prentisiaethau ychwanegol hyn at y cyfrifiad gwerth cyffredinol.**

Ar gyfer gweddill y mwyafrif helaeth o fyfyrwyr y byddwn yn amcangyfrif eu llwybr a'u cyraeddiadau ar eu cyfer, rydym yn diffinio saith llwybr cymhwyster sy'n wahanol o ran a ydynt yn arwain at gymwysterau academiaidd neu alwedigaethol, a lefel y cymwysterau hynny. Dyma'r llwybrau:

1. Cymwysterau islaw lefel 2
2. TGAU (lefel 2)
3. Cymwysterau lefel 2 eraill
4. Safon Uwch/UG (lefel 3)

⁸ Daw data Cymru ar gyfraddau NEET o Fwletin Ystadegol Ystadegau Cymru SB31/2019. Y ffigurau mwyaf awdurdodol ar gyfer cyfraddau NEET yw'r rhai a gyfrifir ar sail Datganiad Ystadegol Cyntaf sy'n awgrymu cyfradd NEET o tua 10% ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed ar gyfer y blynyddoedd 2014-2018. Awgryma cyfrifiadau awdur o'r model nad yw tua 13%-14% o'r grŵp oedran hwn mewn addysg na hyfforddiant bob blwyddyn, gan awgrymu bod tua 25% o'r rhain felly mewn cyflogaeth (3-4%/13-14%).

5. Cymwysterau lefel 3 eraill⁹
6. Llwybr cymysg sy'n cyfuno cymwysterau academiaidd a galwedigaethol, ar uchafswm o lefel 2
7. Llwybr cymysg sy'n cyfuno cymwysterau academiaidd a galwedigaethol, ar uchafswm o lefel 3

Gan y byddai'r bobl ifanc yr effeithia'r RPA arnynt yn dewis peidio â chymryd rhan mewn addysg neu hyfforddiant yn un o'r blynyddoedd neu'r ddwy flynedd ar ôl cwblhau blwyddyn 11, ni ellir arsylwi ar eu dosbarthiad ar draws llwybrau posibl yn y data ar gyfer carfanau blaenorol. Gallwn weld y dewisiadau a wna cyfranogwyr yng ngrŵp 2 a grŵp 4, ond nid yw hyn yn rhoi gwybodaeth am yr hyn y *byddent* yn dewis ei wneud pan fydd yn rhaid iddynt wneud penderfyniad cyn dechrau blwyddyn 12 dros ba lwybr y byddant yn ei ddilyn yn ystod y cyfnod dilynol o *ddwy flynedd*. Mae'n debygol y byddai'r penderfyniad a wnaed dros lwybr dwy flynedd yn wahanol i'r penderfyniad ar gyfer blwyddyn 12 neu flwyddyn 13 yn unig, felly mae angen modelu eu dewisiadau yn seiliedig ar grŵp cymharu gwahanol na myfyrwyr grŵp 2 a grŵp 4 presennol.

Er mwyn amcangyfrif y llwybrau ar gyfer y cyfranogwyr newydd, rydym felly'n defnyddio gwybodaeth gan y grŵp o fyfyrwyr sy'n cymryd rhan yn wirfoddol ym mlwyddyn 12 a blwyddyn 13 o garfanau blaenorol (grŵp 1). Gan fod y rhai sy'n dewis aros mewn addysg yn wirfoddol ar gyfer blynyddoedd 12 a 13 yn wahanol o ran eu cyrhaeddiad blaenorol a'u nodweddion cefndir unigol i'r rhai sy'n dewis gadael (fel y nodir uchod), mae angen i ni sicrhau ein bod yn amcangyfrif dosbarthiad myfyrwyr ar draws llwybrau gan ddefnyddio grŵp o fyfyrwyr mor gymaradwy â phosibl i'r rhai y bydd y polisi'n effeithio arnynt. Er ein bod yn gwybod rhai o nodweddion y myfyrwyr ar gyfer carfanau yn y dyfodol, mae'n amlwg nad allwn wybod eu lefelau cyrhaeddiad 16 oed, ac felly ein dull gweithredu cyntaf yw rhannu pob grŵp o fyfyrwyr (grwpiau 1, 2, 3 a 4) yn y carfannau blaenorol yn gelloedd a ddiffinnir gan p'un a ydynt erioed wedi cael eu cofnodi fel rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim¹⁰ yn ystod eu gyrfa ysgol ac a oeddent wedi cyflawni 5 gradd A*-C ai peidio gan gynnwys Saesneg (neu Gymraeg) a Mathemateg yn eu harholiadau TGAU. Yna, rydym yn defnyddio

⁹ Gall myfyrwyr sy'n dilyn Bagloriaeth Cymru gymryd cymwysterau academiaidd neu alwedigaethol neu gyfuniad o'r ddau a gallant hefyd fod yn sefyll cymwysterau ar lefel 2 a lefel 3. Ar gyfer modelu llwybrau a chyrhaeddiadau, caiff y cymwysterau unigol sy'n ffurfio Bagloriaeth Cymru eu cyfrif yn unigol. Nid yw elfennau tystysgrif sgiliau Bagloriaeth Cymru yn cael eu cyfrif fel cymwysterau cyfatebol i TGAU neu Safon Uwch gan nad oes gennym unrhyw sail i amcangyfrif eu gwerth economaidd.

¹⁰ Mae hwn yn fesur amherffaith o gefndir teuluol ond fe'i defnyddir yn rheolaidd fel arwydd o anfantais gan fod teuluoedd cymwys yn y 15% tlotaf o'r dosbarthiad incwm.

model atchweliad llinelllog¹¹ i ragweld dosbarthiad myfyrwyr ar draws y celloedd hyn ym mhob grŵp, ar gyfer pob un o'r carfanau yn y dyfodol. Gyda'n meintiau grŵp a ragwelwyd yn flaenorol, gallwn wedyn amcangyfrif nifer y myfyrwyr ym mhob grŵp ym mhob un o'r celloedd a ddiffinnir gan statws prydau ysgol am ddim a chyrhaeddiad blaenorol ar gyfer pob carfan yn y dyfodol.

Mae Tabl 5 yn dangos y dadansoddiad o aelodaeth grŵp a chell ar gyfer y garfan sy'n cwblhau CA4 yn 2020 ar wahân yn ôl rhywedd (mae Atodiad Tablau A6 ac A7 yn dangos y tablau cymaradwy ar gyfer y carfanau sy'n cwblhau CA4 yn 2021 a 2022).

Tabl 5: Dosbarthiad o fyfyrwyr a ragwelir ar draws celloedd a ddiffinnir yn ôl statws cymhwysra prydau ysgol am ddim gydol oes a chyrhaeddiad blaenorol yn 16 oed, carfan yn cwblhau CA4 yn 2020

Bechgyn	cyfran y garfan	nifer	cyfran y grŵp			
			cyrhaeddiad isel, heb gael prydau ysgol am ddim erioed	cyrhaeddiad isel, cael prydau ysgol am ddim erioed	cyrhaeddiad uwch, heb gael prydau ysgol am ddim erioed	cyrhaeddiad uwch, cael prydau ysgol am ddim erioed
Grŵp 1	0.778	12,588	0.212	0.144	0.544	0.100
Grŵp 2	0.117	1,897	0.354	0.317	0.215	0.114
Grŵp 3	0.096	1,551	0.305	0.307	0.326	0.062
Grŵp 4	0.009	144	0.369	0.328	0.238	0.065
	1.000	16,179				

Merched	cyfran y garfan	nifer	cyfran y grŵp			
			cyrhaeddiad isel, heb gael prydau ysgol am ddim erioed	cyrhaeddiad isel, cael prydau ysgol am ddim erioed	cyrhaeddiad uwch, heb gael prydau ysgol am ddim erioed	cyrhaeddiad uwch, cael prydau ysgol am ddim erioed
Grŵp 1	0.821	12,669	0.183	0.119	0.579	0.119
Grŵp 2	0.098	1,511	0.314	0.334	0.241	0.111
Grŵp 3	0.073	1,123	0.288	0.264	0.385	0.063
Grŵp 4	0.008	123	0.312	0.351	0.278	0.059
	1.000	15,427				

Ffynhonnell: cyfrifiadau'r awdur gan ddefnyddio Cronfa Ddata Genedlaethol Disgyblion Cymru, y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, y Casgliad Data Ôl-16 a Chofnod Dysgu Gydol Oes Cymru a rhagfynegiad model.

¹¹ Mae'r model yn cynnwys atchweliad ar wahân ar gyfer pob grŵp ac mae'n defnyddio tuedd amser llinelllog ar gyfer pob cell wedi'i hallosod ymlaen i ragweld y cyfrannau ym mhob cell ym mhob grŵp ar gyfer pob carfan yn y dyfodol. Gan mai ychydig iawn o fyfyrwyr sydd yng ngrŵp 4, amcangyfrifwn y cyfrannau celloedd yma drwy gymryd cyfartaledd y carfanau sy'n cwblhau CA4 yn 2014-2017 yn hytrach na defnyddio'r atchweliad llinelllog i ragweld aelodaeth celloedd.

Gallwn weld o Dabl 5 fod myfyrwyr sy'n aros mewn addysg neu hyfforddiant yn wirfoddol ym mlwyddyn 12 a blwyddyn 13 yn fwy tebygol o fod yn y grwpiau cyrhaeddiad uwch yn 16 oed ac yn llai tebygol o fod wedi bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim erioed. Ar gyfer bechgyn, roedd ychydig o dan 65% o fyfyrwyr grŵp 1 yn y celloedd cyrhaeddiad blaenorol uwch, ond ar gyfer grwpiau 2, 3 a 4 y ffigurau yw 33%, 39% a 30%. Yn yr un modd i ferched, bron i 70% o fyfyrwyr grŵp 1 sydd yn y grwpiau cyrhaeddiad uwch, gyda grwpiau 2, 3 a 4 yn cynnwys 35%, 44% a 34%, sy'n adlewyrchu patrwm tebyg i'r bechgyn ond yn dangos bod y merched yn perfformio'n well na bechgyn ar y metrig hwn yn gyffredinol. Ar gyfer bechgyn a merched, ymhlith myfyrwyr grŵp 1, nid yw tua thri chwarter erioed wedi bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, o gymharu â thua 55% ar gyfer grŵp 2, 65% ar gyfer grŵp 3 a 60% ar gyfer grŵp 4.

I fechgyn a merched yn y ddwy gell cyrhaeddiad uwch, mae llawer mwy o bwysau yn y celloedd 'heb fod yn gymwys erioed i gael prydau ysgol am ddim' – pedair i bum gwaith yn fwy ar gyfer grwpiau 1, 3 a 4 ond yn ddiddorol nid yw hyn yn wir am grŵp 2, lle nad yw ond tua dwywaith y gyfran yn y gell 'heb fod yn gymwys erioed i gael prydau ysgol am ddim' o'i gymharu â 'cymwys erioed am brydau ysgol am ddim' ymhlith y myfyrwyr sydd â chyrhaeddiad blaenorol uwch. Yn y ddwy gell cyrhaeddiad is, ar gyfer grŵp 1, mae'n dal yn wir bod mwy o bwysau yn y gell 'heb fod yn gymwys erioed i gael prydau ysgol am ddim' ar gyfer bechgyn a merched, ond ymhlith y grwpiau eraill, ar gyfer cyrhaeddiadau is, mae'n rhaniad cyfartal rhwng y rhai sy'n gymwys erioed i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai sydd heb fod yn gymwys erioed i gael prydau ysgol am ddim.

Yn ogystal â'r detholiad positif amlwg o fyfyrwyr i grŵp 1 ar sail cyrhaeddiad blaenorol a statws cymhwysra prydau ysgol am ddim gydol oes, y prif gasgliad arall yw, er bod myfyrwyr yng ngrwpiau 3 a 4 yn cael eu dosbarthu yn yr un modd ar draws celloedd, mae myfyrwyr grŵp 2 – y rhai a fyddai'n dewis o'u gwirfodd aros mewn addysg neu hyfforddiant ym mlwyddyn 12 yn unig – yn fwy tebygol o fod yn y celloedd cyrhaeddiad is ac yn fwy tebygol o fod yn gymwys erioed i gael prydau ysgol am ddim.

Gan ddefnyddio'r cyfrannau a ragwelir o Dabl 5, gallwn amcangyfrif nifer y myfyrwyr ym mhob cell ar gyfer y garfan sy'n cwblhau CA4 yn 2020; dangosir hyn yn Nhabl 6 (gyda thablau cyfatebol ar gyfer carfanau eraill yn y dyfodol yn Nhablau Atodiad A8 ac A9).

Tabl 6: Dosbarthiad o fyfyrwyr a ragwelir ym mhob cell a ddiffinnir yn ôl statws cymhwysra prydau ysgol am ddim gydol oes a chyrhaeddiad blaenorol yn 16 oed, carfan yn cwblhau CA4 yn 2020

Bechgyn		<i>Amcangyfrif o nifer y myfyrwyr</i>			
	cyrhaeddiad isel, heb gael prydau ysgol am ddim erioed	cyrhaeddiad isel, cael prydau ysgol am ddim erioed	cyrhaeddiad uwch, heb gael prydau ysgol am ddim erioed	cyrhaeddiad uwch, cael prydau ysgol am ddim erioed	Cyfanswm
Grŵp 1	2,673	1,809	6,844	1,262	12,588
Grŵp 2	671	602	408	216	1,897
Grŵp 3	474	476	506	95	1,551
Grŵp 4	53	47	34	9	144
Cyfanswm	3,870	2,934	7,792	1,583	16,179

Merched		<i>Amcangyfrif o nifer y myfyrwyr</i>			
	cyrhaeddiad isel, heb gael prydau ysgol am ddim erioed	cyrhaeddiad isel, cael prydau ysgol am ddim erioed	cyrhaeddiad uwch, heb gael prydau ysgol am ddim erioed	cyrhaeddiad uwch, cael prydau ysgol am ddim erioed	Cyfanswm
Grŵp 1	2,316	1,509	7,334	1,511	12,669
Grŵp 2	474	505	365	167	1,511
Grŵp 3	324	297	432	70	1,123
Grŵp 4	38	43	34	7	123
Cyfanswm	3,151	2,354	8,165	1,756	15,427

Ffynhonnell: cyfrifiadau'r awdur gan ddefnyddio Cronfa Ddata Genedlaethol Disgyblion Cymru, y Cyfrifiad Ysgolion Blynnyddol ar Lefel Disgyblion, y Casgliad Data Ôl-16 a Chofnod Dysgu Gydol Oes Cymru a rhagfynegiad model.

Ar ôl amcangyfrif dosbarthiad myfyrwyr ar draws y celloedd hyn, gallwn wedyn ragweld y llwybrau a gymerwyd gan bob grŵp o fyfyrwyr ar sail y dadansoddiad o llwybrau a gymerwyd gan fyfyrwyr yn y grŵp cymharu ar gyfer yr un gell cymhwysra prydau ysgol am ddim gydol oes a chyrhaeddiad blaenorol.¹² Yn hytrach na defnyddio'r llwybrau a gymerwyd gan bob myfyriwr grŵp 1 yn yr un gell cymhwyster prydau ysgol am ddim a chyrhaeddiad blaenorol, rydym yn cymryd cam pellach i gyfyngu ar y grŵp cymharu er mwyn ei wneud mor agos â phosibl at y grŵp o fyfyrwyr yr effeithir arnynt.

I wneud hyn, rydym yn defnyddio'r data lefel unigol yn gyntaf o garfanau blaenorol i amcangyfrif y tebygolrwydd o aros mewn addysg neu hyfforddiant ym mlwyddyn 12 a blwyddyn 13 (h.y. bod yn aelod o grŵp 1) gan ddefnyddio ystod fawr iawn o newidynnau sy'n cipio cyraeddiadau a nodweddion cefndir yr unigolion drwy gydol eu gyrfa yn yr ysgol o'r Cyfnod Sylfaen i fyny, ynghyd â gwybodaeth am yr ysgolion yr oeddent yn eu mynychu.¹³ Yna, rydym yn cymryd y tebygolrwydd hwn a ragwelir ac yn diffinio'r grŵp cymharu fel dim ond y rhai sydd yng ngrŵp 1 ond y mae eu tebygolrwydd a ragwelir o fod yng ngrŵp 1 yn is na'r tebygolrwydd canolrif a ragwelir. Felly, rydym yn defnyddio grŵp cymharu o fyfyrwyr sy'n dewis aros mewn addysg neu hyfforddiant am ddwy flynedd, ond sydd, ar sail eu nodweddion unigol, teuluol, ysgol a chyrhaeddiad blaenorol, ymhlith y myfyrwyr lleiaf tebygol o wneud y dewis hwn. At hynny, o fewn y grŵp cymharu hwn, edrychwn ar ddosbarthiad llwybrau ar wahân ar gyfer pob cell a ddiffinnir gan gymhwysra gydol oes am brydau ysgol am ddim a chyrhaeddiad blaenorol yn 16 oed. Mae Tabl 7 yn dangos dosbarthiad y llwybr ar gyfer pob cell ar gyfer pob rhywedd.

¹² Ni fyddai maint y set ddata yn caniatáu i ni amcangyfrif y llwybr yn ôl dosbarthiad celloedd ar gyfer pob blwyddyn ac yna rhagamcanu hwnnw ymlaen ar gyfer carfanau'r dyfodol ac felly rydym yn cyfuno'r wybodaeth dros garfanau 2014-2017 i amcangyfrif dosbarthiad myfyrwyr ar draws y saith llwybr ar gyfer pob un o'r pedair cell a ddiffinnir gan gymhwysra prydau ysgol am ddim gydol oes*cyrhaeddiad blaenorol.

¹³ Mae'r model lefel unigol sy'n rhagweld aelodaeth grŵp 1 yn cynnwys fel rhagfynegyddion set gynhwysfawr o fesurau cyrhaeddiad yn CA4, CA3, CA2 a'r cyfnod sylfaen, nodweddion demograffig-gymdeithasol y myfyrwyr a nodweddion eu hysgol. Am restr lawn o'r rhagfynegyddion gweler yr atodiad.

Tabl 7: Dosbarthiad myfyrwyr ar draws llwybrau cymhwyster yn ôl cell a ddiffinnir yn ôl statws cymhwysra prydau ysgol am ddim gydol oes a chyrrhaeddiad blaenorol yn 16 oed; yn seiliedig ar grŵp cymharu mewn carfanau sy'n cwblhau CA4 yn 2014-2017

Bechgyn

	Islaw Lefel 2	TGAU	Lefel 2 Arall	Safon Uwch/ Uwch Gyfrannol	Lefel arall 3	Cymysg, uchafswm lefel 2	Cymysg, uchafswm lefel 3	Cyf- answm
cyrhaeddiad is, heb gael prydau ysgol am ddim erioed	0.2170	0.0416	0.0900	0.1003	0.0756	0.3150	0.1606	1.0000
cyrhaeddiad is, cael prydau ysgol am ddim erioed	0.3997	0.0318	0.0518	0.0513	0.0341	0.3232	0.1080	1.0000
cyrhaeddiad uwch, heb gael prydau ysgol am ddim erioed	0.0236	0.0054	0.0455	0.4536	0.1944	0.0803	0.1972	1.0000
cyrhaeddiad uwch, cael prydau ysgol am ddim erioed	0.0710	0.0055	0.0440	0.3549	0.1911	0.1109	0.2225	1.0000

Merched

	Islaw Lefel 2	TGAU	Lefel 2 Arall	Safon Uwch/Uwch Gyfrannol	Lefel arall 3	Cymysg, uchafswm lefel 2	Cymysg, uchafswm lefel 3	Cyf- answm
cyrhaeddiad is, heb gael prydau ysgol am ddim erioed	0.1353	0.0598	0.0772	0.1943	0.0911	0.2152	0.2272	1.0000
cyrhaeddiad is, cael prydau ysgol am ddim erioed	0.3021	0.0407	0.0670	0.0948	0.0610	0.2608	0.1736	1.0000
cyrhaeddiad uwch, heb gael prydau ysgol am ddim erioed	0.0137	0.0042	0.0265	0.6072	0.1604	0.0262	0.1618	1.0000
cyrhaeddiad uwch, cael prydau ysgol am ddim erioed	0.0425	0.0082	0.0376	0.4496	0.1832	0.0443	0.2347	1.0000

Ffynhonnell: cyfrifiadau'r awdur gan ddefnyddio Cronfa Ddata Genedlaethol Disgyblion Cymru, y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, y Casgliad Data Ôl-16 a Chofnod Dysgu Gydol Oes Cymru a rhagfynegiad model.

Fel y gwelir yn Nhabl 7, hyd yn oed ymhlith myfyrwyr grŵp 1 sydd y lleiaf tebygol o aros am ddwy flynedd, mae'r myfyrwyr sydd wedi ennill 5A*-C gan gynnwys Saesneg (neu Gymraeg) a Mathemateg yn CA4 yn dewis y cyrsiau academiaidd lefel 3 yn bennaf, yn enwedig ymhlith y merched. Mae 61% o'r merched cyrhaeddiad uwch, heb gael prydau ysgol am ddim erioed ar y llwybr Safon Uwch/UG, ynghyd â 45% o'r rhai cyrhaeddiad uwch a oedd yn gymwys erioed i gael prydau ysgol am ddim. I fechgyn, mae'r ffigurau cyfatebol ychydig yn is sef 45% a 35% yn y drefn honno, er mai'r rhain yw'r llwybrau mwyaf poblog o bell ffordd ar gyfer bechgyn uchel eu cyrhaeddiad. Pan gaiff cyrsiau galwedigaethol lefel 3 eu cynnwys mae'r ffigurau hyn yn cynyddu at 93% ac 87% ar gyfer merched, 85% a 77% ar gyfer bechgyn – felly mae'n amlwg bod y mwyafrif llethol o fechgyn a merched sy'n cyrraedd 5A*-C gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a Mathemateg mewn TGAU yn mynd ymlaen i gyrsiau lefel 3 ym mlynnyddoedd 12 a 13.

Ymhlith y rhai sydd â chyrhaeddiad is mewn TGAU, mae llawer llai yn dilyn cyrsiau lefel 3 ac ymhlith y rhai sydd, mae mwy o bwysau ar gyrsiau galwedigaethol lefel 3 a llai mewn llwybrau academiaidd nag sy'n wir am y rhai sydd â chyrhaeddiad uwch mewn TGAU. Ar gyfer bechgyn a merched, mae 35%-40% o fyfyrwyr yn y grwpiau sydd â chyrhaeddiad is mewn TGAU yn dilyn cyrsiau lefel 2, ac mae cyfrannau nad ydynt yn ddibwys yn dilyn cyrsiau galwedigaethol yr ystyrir eu bod yn is na lefel 2. Mae hyn yn arbennig o wir am fechgyn sy'n gymwys erioed i gael prydau ysgol am ddim, gyda 40% ar y llwybr cymwysterau islaw lefel 2. Ychydig iawn o fyfyrwyr ym mlynnyddyn 12 a 13 sy'n gwneud nifer fawr o gymwysterau TGAU gyda llawer yn dilyn cyrsiau cymysg sy'n cyfuno ailsefyll TGAU Saesneg neu Fathemateg wrth hefyd ddilyn cyrsiau galwedigaethol eraill ar lefel 2.

Canlyniad y camau modelu i'r pwynt hwn yw y gallwn amcangyfrif eu cyfansoddiad o ran cyrhaeddiad blaenorol a chymhwysra prydau ysgol am ddim ar gyfer pob grŵp o fyfyrwyr y mae'r polisi yn effeithio arnynt (grwpiau 2, 3 a 4). Ar gyfer pob un o'r pedair cell hyn ym mhob grŵp, gallwn wedyn amcangyfrif nifer y myfyrwyr sy'n dilyn pob un o'r saith llwybr cymhwyster yn seiliedig ar y llwybrau a gymerwyd gan fyfyrwyr o garfanau blaenorol o gyfranogwyr gwirfoddol (myfyrwyr grŵp 1) gyda'r un cymhwysra gydol oes am brydau ysgol am ddim a gallu blaenorol, gan ddefnyddio dim ond llwybrau'r myfyrwyr hynny yr amcangyfrifir eu bod y lleiaf tebygol o aros mewn addysg neu hyfforddiant am ddwy flynedd ychwanegol. Yn absenoldeb unrhyw dystiolaeth sydd ar gael o'r llenyddiaeth i awgrymu dosbarthiad llwybr amgen, y dosbarthiad hwn a ddefnyddiwn yn ein senario canolog.

Hwn yw'r dull modelu gorau o ystyried y data, ac mae'n sicrhau ein bod yn defnyddio'r myfyrwyr sydd fwyaf tebyg i'r cyfranogwyr ychwanegol i ragweld eu llwybrau yn y dyfodol, ond mae'n amlwg y bydd y rhai sy'n dewis aros yn wirfoddol mewn addysg neu hyfforddiant am ddwy flynedd ychwanegol yn wahanol i'w

nodweddion na ellir eu gweld nad allwn eu hystyried yn y modelu, ac a allai effeithio ar eu dewis o lwybr cymhwyster a'u cyrhaeddiad dilynol. Yn wir, fel yr esboniwyd yn adran fethodoleg yr atodiad, dim ond cyfran gymharol fach o'r amrywiant mewn aelodaeth grŵp y gall ystod gyfoethog o nodweddion y gellir eu harsylwi ei hesbonio, felly mae nodweddion nad ellir eu gweld unigolion (fel cydwybodolrwydd, cymhelliant, cyfeiriadedd yn y dyfodol, uchelgais) yn bwysig iawn o ran esbonio pam mae myfyrwyr sy'n ymddangos yn debyg yn gwneud dewisiadau cyfranogi gwahanol. Yng ngoleuni'r potensial i nodweddion na ellir eu gweld effeithio ar ddewis llwybrau yn yr un modd, rydym yn ystyried yn ddiweddarach senarios dibynadwy amgen ar gyfer dosbarthu myfyrwyr ar draws y llwybrau cymhwyster a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar gyraeddiadau cyffredinol.

Tabl 8: Dosbarthiad myfyrwyr ar draws llwybrau cymhwyster yn ôl cell a ddiffinnir yn ôl statws cymhwysra prydau ysgol am ddim gydol oes a chyrhaeddiad blaenorol yn 16 oed, carfan yn cwblhau CA4 yn 2020

Bechgyn

	Islaw L2	TGAU	L2 Arall	Safon Uwch/Uwch Gyfrannol	L3 Arall	Cymysg, uchafswm L2	Cymysg, uchafswm L3	Cyfanswm
cyrhaeddiad is, heb gael prydau ysgol am ddim erioed	253	49	105	117	88	368	188	1,168
cyrhaeddiad is, cael prydau ysgol am ddim erioed	438	35	57	56	37	354	118	1,095
cyrhaeddiad uwch, heb gael prydau ysgol am ddim erioed	22	5	42	416	178	74	181	916
cyrhaeddiad uwch, cael prydau ysgol am ddim erioed	22	2	14	112	60	35	70	315
Cyfanswm	735	90	217	701	364	830	557	3,494
Cyfran ar y llwybr	0.2104	0.0258	0.0622	0.2005	0.1042	0.2376	0.1593	1.0000
Yn ogystal â'r 3,494 o fyfyrwyr grŵp 2, 3 a 4 hyn, mae 97 o grŵp 3 yr ydym yn tybio eu bod mewn swyddi sy'n trosi i brentisiaethau lefel 2 sy'n rhoi cyfanswm y cyfranogwyr ychwanegol o 3,591.								
Cyfanswm grwpiau 2, 3 a 4: 3,591								

Merched

	Islaw L2	TGAU	L2 Arall	Safon Uwch/Uwch Gyfrannol	L3 Arall	Cymysg, uchafswm L2	Cymysg, uchafswm L3	Cyfanswm
cyrhaeddiad is, heb gael prydau ysgol am ddim erioed	110	49	63	158	74	175	185	816
cyrhaeddiad is, cael prydau ysgol am ddim erioed	250	34	55	78	50	216	144	827
cyrhaeddiad uwch, heb gael prydau ysgol am ddim erioed	11	3	21	488	129	21	130	804
cyrhaeddiad uwch, cael prydau ysgol am ddim erioed	10	2	9	108	44	11	56	241
Cyfanswm	381	88	149	833	298	423	515	2,688
Cyfran ar y llwybr	0.1419	0.0327	0.0553	0.3101	0.1108	0.1574	0.1918	1.0000

Yn ogystal â'r 2,688 o fyfyrwyr grŵp 2, 3 a 4 hyn, mae 70 o grŵp 3 yr ydym yn tybio eu bod mewn swyddi sy'n troi i brentisiaethau lefel 2 sy'n rhoi cyfanswm y cyfranogwyr ychwanegol o 2,758.

Cyfanswm grwpiau 2, 3 a 4: 2,758

Ffynhonnell: cyfrifiadau'r awdur gan ddefnyddio Cronfa Ddata Genedlaethol Disgyblion Cymru, y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, y Casgliad Data Ôl-16 a Chofnod Dysgu Gydol Oes Cymru a rhagfynegiad model.

Mae Tabl 8 yn dangos sut rydym yn amcangyfrif bod y cyfranogwyr ychwanegol ym mhob grŵp yn cael eu dosbarthu ar draws y llwybrau cymhwyster ar gyfer y garfan sy'n cwblhau CA4 yn 2020 (mae Tablau Atodiad A10 ac A11 yn dangos y tablau cymaradwy ar gyfer carfanau 2021 a 2022). Mae dosbarthiad myfyrwyr ar draws llwybrau yn cael ei gyfrifiannu ar wahân ar gyfer pob grŵp gan ddefnyddio'r wybodaeth yn Nhablau 6 a 7 uchod, cyn cael ei grynhoi yn ôl cell a llwybr cymwysterau yn Nhabl 8. Cyn dosbarthu'r myfyrwyr hyn ar draws llwybrau, amcangyfrifwn y bydd 97 o fechgyn a 70 o ferched mewn swyddi sy'n trosi i brentisiaethau lefel 2 o ganlyniad i'r RPA.

O ystyried meintiau disgwyledig y grwpiau, y dosbarthiad ar draws celloedd ym mhob grŵp, a dosbarthiad llwybrau ym mhob cell, gwelwn fod y myfyrwyr RPA gwrywaidd yn cael eu dosbarthu fel bod ychydig dros 20% yn dilyn cyrsiau islaw lefel 2, bod 33% yn dilyn cyrsiau lefel 2 a bod y 46% sy'n weddill yn dilyn cyrsiau lefel 3. Ar gyfer y merched yr effeithir arnynt gan RPA, rhagwelir y bydd llai o fyfyrwyr ar gyrsiau islaw lefel 2 (14%) a chyrsiau lefel 2 (25%) gyda llawer mwy o bwysau ar gyrsiau lefel 3 (61%).

Mae'r dosbarthiad hwn yn dangos sut y byddai'r holl gyfranogwyr ychwanegol posibl yn cael eu dosbarthu ar draws llwybrau gan ystyried sut mae'r myfyrwyr hyn yn ffitio ar draws grwpiau cyfranogiad a chelloedd a ddiffinnir gan eu statws cymhwysterau prydau ysgol am ddim gydol oes a chyrhaeddiad blaenorol. Fodd bynnag, o ystyried y byddwn yn tybio bod cydymffurfiaeth â'r polisi yn is na 100%, mae Tabl 9 yn dangos sut yr effeithir ar gyfanswm nifer y llwybrau gwahanol gan gydymffurfiaeth amrywiol (mae Tablau Atodiad A12 ac A13 yn dangos y ffigurau cyfatebol ar gyfer carfanau yn y dyfodol).

Tabl 9: Dosbarthiad myfyrwyr ar draws llwybrau cymwysterau, amrywio yn ôl graddau cydymffurfiaeth; carfan yn cwblhau CA4 yn 2020

Bechgyn

Cydymffurfiaeth	Islaw lefel 2	TGAU	Lefel 2 arall	Safon Uwch/ Uwch Gyfrannol	Arall lefel 3	Cymysg uchafswm lefel 2	Cymysg uchafswm lefel 3	Cyfanswm
5%	37	5	11	35	18	42	28	175
15%	110	14	33	105	55	125	84	524
30%	221	27	65	210	109	249	167	1,048
50%	368	45	109	351	182	415	279	1,747
100%	735	90	217	701	364	830	557	3,494

Merched

Cydymffurfiaeth	Islaw lefel 2	TGAU	Lefel 2 arall	Safon Uwch/ Uwch Gyfrannol	Arall lefel 3	Cymysg uchafswm lefel 2	Cymysg uchafswm lefel 3	Cyfanswm
5%	19	4	7	42	15	21	26	134
15%	57	13	22	125	45	63	77	403
30%	114	26	45	250	89	127	155	806
50%	191	44	75	417	149	212	258	1,344
100%	381	88	149	833	298	423	515	2,688

Yn seiliedig ar yr adolygiad helaeth o'r dystiolaeth o'r llenyddiaeth (gweler Maguire, 2021), mae ein senario modelu canolog yn rhagdybio cydymffurfiaeth o 30% a fyddai'n golygu bod 1,048 o fechgyn ychwanegol wedi'u dosbarthu ar draws y llwybrau cymhwyster, yn ogystal â 97 yn fwy yn gwneud prentisiaethau lefel 2. Ar y lefel hon o gydymffurfiaeth, byddai 806 o ferched ychwanegol, yn ogystal â 70 yn cymryd rhan drwy swyddi a oedd yn trosi'n brentisiaethau lefel 2.¹⁴

Cam 3: Modelu cyrhaeddiad erbyn diwedd Blwyddyn 13 ar gyfer y cyfranogwyr ychwanegol

Cam nesaf y modelu yw rhagweld faint o'r cyfranogwyr ychwanegol sy'n cyflawni'r cymwysterau y maent yn eu dilyn yn y ddwy flynedd o addysg ôl-16. Yn yr un modd â'r dewis o lwybrau cymhwyster, nid oes gwybodaeth am gyfraddau cyrhaeddiad y cyfranogwyr ychwanegol ac felly rydym unwaith eto'n defnyddio'r grŵp cymharu i amcangyfrif y gyfradd cyrhaeddiad ar gyfer gwahanol gymwysterau. Fel gyda dosbarthiad myfyrwyr ar draws y llwybrau cymhwyster, amcangyfrifir hyn gan ddefnyddio'r gyfradd cyrhaeddiad ar gyfer pob cell a ddiffinnir gan gymhwysra prydau ysgol am ddim gydol oes a chyrhaeddiad blaenorol yn 16 oed ymhlith y rhai sy'n cymryd rhan yn wirfoddol am ddwy flynedd ond sydd â thebygolrwydd amcangyfrifedig isel o wneud hynny.

Er mwyn amcangyfrif cyfanswm prisiad economaidd y cymwysterau ychwanegol a gyrhaeddwyd, mae angen i ni gyfrif y cymwysterau a gaiff eu grwpio'n categorïau y mae amcangyfrifon o werth economaidd gydol oes ar gael ar eu cyfer ar sail gymaradwy. Mae hyn yn golygu ein bod yn canolbwyntio ar gyflawni:

- 5 TGAU neu fwy gan gynnwys Saesneg a Mathemateg¹⁵, 2 neu fwy o gymwysterau Safon Uwch;

¹⁴ Byddai hyn yn rhoi 2,022 o gyfranogwyr ychwanegol ar gyfer y garfan hon. Gellir cyfrifo hyn hefyd o'r 6,349 o fyfyrwyr ychwanegol a ragwelwyd yng ngrwpiau 2, 3 a 4 ar gyfer carfan CA4 2020 yn Nhabl 1. Mae tynnu'r 97 o fechgyn a'r 70 o ferched y tybir eu bod yn cymryd swyddi sy'n troi'n brentisiaethau lefel 2 i ffwrdd yn gadael 6,182 o fyfyrwyr. Byddai 30% o gydymffurfio yn golygu 1,855, ynghyd â'r 97 a'r 70 yn rhoi 2,022 o gyfranogwyr ychwanegol.

¹⁵ Yn y data cyrhaeddiad 16 oed gwyddom a yw myfyriwr wedi ennill 5 TGAU A*-C gan gynnwys Cymraeg (neu Saesneg) a Mathemateg erbyn 16 oed ai peidio ond i'r rhai sy'n methu'r mesur hwn, ni wyddom pa mor bell ydynt o gyrraedd y marcwr hwn. Gan fod 90% o'r cymwysterau TGAU a gymerwyd ym mlwyddyn 12 a blwyddyn 13 yn Saesneg Iaith neu Fathemateg, rydym yn rhagdybio bod pasio TGAU Saesneg Iaith neu Fathemateg ym mlwyddyn 12 neu 13 yn dod â'r myfyriwr ar draws y trothwy 5A*-C gan gynnwys Saesneg a Mathemateg ac felly'n

- Cymwysterau City & Guilds lefel 3, BTEC lefel 3, cymwysterau galwedigaethol lefel 3 eraill¹⁶;
- Cymwysterau City & Guilds lefel 2, BTEC lefel 2, cymwysterau galwedigaethol lefel 2 eraill; a
- Phrentisiaeth ar lefel 3; prentisiaeth ar lefel 2.

Gan ddefnyddio'r grŵp cymharu o fyfyrwyr o grŵp 1 sydd â thebygolrwydd isel o fod yng ngrŵp 1, gallwn amcangyfrif y gyfradd cyrhaeddiad ar gyfer pob un o'r mathau hyn o gymwysterau ar gyfer myfyrwyr ar bob llwybr cymhwyster ar gyfer pob cell a ddiffinnir gan gymhwysterau prydau ysgol am ddim gydol oes a chyrhaeddiad blaenorol. Gan fod 10 canlyniad cymhwyster, pedair cell a saith llwybr cymhwyster posibl ym mhob cell, mae hyn yn rhoi cyfanswm o 280 o gyfraddau cyrhaeddiad i'w defnyddio yn y dadansoddiad. Ar gyfer canlyniadau deuaidd fel cyrraedd 2+ Safon Uwch, mae'r matrices cyrhaeddiad yn dangos cyfran y llwybr*cell sy'n cyflawni'r canlyniad hwn. Ar gyfer canlyniadau parhaus fel nifer y cymwysterau galwedigaethol lefel 2 (eraill), mae'r matrices yn dangos nifer cyfartalog y cymwysterau hyn a enillwyd gan fyfyrwyr yn y gell honno a'r llwybr hwnnw. Mae'r matrices llawn ar gael yn Nhabl Atodiad A14. Fel gyda'r amcangyfrif o ddosbarthiad myfyrwyr ar draws llwybrau o fewn cell, rydym yn cymhwyso'r un matrices o gyfraddau cyrhaeddiad ar gyfer pob carfan yn y dyfodol.¹⁷

Mae'r matrices cyfradd cyrhaeddiad yn dangos bod cyrhaeddiad, ar gyfer pob rhyw, yn amrywio yn ôl y gwahanol lwybrau astudio a chefnidir a chyrhaeddiad blaenorol y myfyrwyr. Er enghraifft, canran gyfartalog y rhai ar y llwybr Safon Uwch/UG sy'n cyrraedd 2+ Safon Uwch (neu nifer cyfatebol o safon UG) erbyn diwedd blwyddyn 13 yw 59% neu 61% ar gyfer bechgyn sydd â chyrhaeddiad uwch mewn TGAU gan ddibynnu a ydynt erioed wedi bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim; ar gyfer merched cyfatebol, y niferoedd hyn yw 75% a 70%. Ymhlith myfyrwyr sydd â chyrhaeddiad is mewn TGAU, mae'r niferoedd cyfatebol yn gostwng i 28% (bechgyn sydd heb fod yn gymwys erioed am brydau ysgol am ddim) a 19% (cymwys erioed am brydau ysgol am ddim) a 44% (merched sydd heb fod yn gymwys erioed am

priso'r cyrhaeddiad hwn ar y sail honno. Nid ydym yn cynnwys myfyrwyr yn y mesur hwn os gwelwn eu bod yn pasio Saesneg neu Fathemateg ym mlwyddyn 12 neu 13 ond hefyd yn methu'r llall.

¹⁶ Rydym yn cyfrif cymwysterau galwedigaethol lefel 3 eraill sydd ag o leiaf gynifer o oriau dysgu yn gysylltiedig â hwy â City & Guilds lefel 3 neu BTEC lefel 3 sydd â 500 o oriau dysgu ar gyfartaledd yr un. Yn debyg ar gyfer cymwysterau galwedigaethol lefel 2 eraill, rydym yn cyfrif y rhai ag o leiaf gynifer o oriau dysgu yn gysylltiedig â hwy â City & Guilds lefel 2 neu BTEC lefel 2 sydd â 250 o oriau dysgu ar gyfartaledd yr un.

¹⁷ Cyfrifir y cyfraddau cyrhaeddiad hyn gan ddefnyddio'r cyfraddau ar gyfer y garfan sy'n cwblhau CA4 yn 2017 gan mai dim ond ar gyfer y garfan hon y mae gennym wybodaeth gyson a chymaradwy am gyraeddiadau myfyrwyr ym mlwyddyn 12 ac ym mlwyddyn 13.

brydau ysgol am ddim) a 38% (cymwys erioed i gael prydau ysgol am ddim). Nid yw'n syndod fod cyfradd cyrhaeddiad 2+ Safon Uwch yn isel iawn i unigolion ar lwybrau galwedigaethol, tra bod nifer cyfartalog y BTEC lefel 3 a gyrhaeddir ar gyfer y rhai ar y llwybr galwedigaethol lefel 3 tua 1.2 ymhlith y rhai cyrhaeddiad is TGAU a thua 1.3 ar gyfer y rhai cyrhaeddiad uwch TGAU. Mae hyn yn wir am ferched yn ogystal â bechgyn, gyda chyrhaeddiad ychydig yn is o BTEC lefel 3 ymhlith y merched sydd â chyrhaeddiad TGAU is (0.8 yn hytrach nag 1.2 i'r bechgyn). I'r rhai sy'n dilyn llwybrau galwedigaethol lefel 2, sef y rhai cyrhaeddiad is yn bennaf ar TGAU, City & Guilds lefel 2, a phrentisiaethau lefel 2 i raddau ychydig yn llai, mae ganddynt gyfraddau cyrhaeddiad uchel.

Gan ddefnyddio'r allbynnau o gamau blaenorol y modelu, mae gennym y nifer a ragwelir o fyfyrwyr RPA ar bob llwybr cymhwyster ym mhob cell a ddiffinnir gan gymhwysra gydol oes am brydau ysgol am ddim a chyrhaeddiad erbyn 16 oed. Gan ddefnyddio'r gyfradd cyrhaeddiad amcangyfrifedig ar gyfer pob math o gymhwyster ar gyfer pob llwybr ar gyfer pob cell, gallwn yn awr amcangyfrif cyfanswm nifer y cymwyserau a enillwyd gan fyfyrwyr yr RPA. Fodd bynnag, er bod y cyfraddau cyrhaeddiad a amcangyfrifir yn deillio o grŵp cymharu sy'n debyg yn fras o ran cefndir a chyrhaeddiad blaenorol, ac sydd hefyd yn annhebygol o aros mewn addysg neu hyfforddiant am ddwy flynedd, roeddent, serch hynny, yn *dewis* aros mewn addysg am ddwy flynedd ychwanegol. Dewis cyntaf myfyrwyr yr RPA ar y llaw arall fyddai peidio ag aros mewn addysg na hyfforddiant am ddwy flynedd. O'r herwydd, ni allwn dybio, pan gânt eu gorfodi i aros mewn addysg neu hyfforddiant, y byddent yn ennill cymwyserau ar yr un gyfradd â'r rhai sy'n eu hastudio'n wirfoddol fel eu dewis cyntaf.

Nid oes unrhyw dystiolaeth uniongyrchol o sut y byddai cyfradd cyrhaeddiad myfyrwyr yr RPA yn cymharu â'r grŵp cymharu. Roedd y dystiolaeth sy'n bodoli i lywio'r gyfradd gyrhaeddiad yn awgrymu cyfradd cyrhaeddiad o hyd at 66%.¹⁸ Er nad yw myfyrwyr yr RPA yn debygol o gyrraedd 100% o gyfradd y myfyrwyr yn y grŵp cymharu, mae'r cyfraddau cyrhaeddiad a amcangyfrifir eisoes yn ystyried statws cymhwysra gydol oes am brydau ysgol am ddim a chyrhaeddiad blaenorol y myfyrwyr, a'u tebygolrwydd o aros mewn addysg neu hyfforddiant yn wirfoddol. O'r herwydd, yn y senario canolog **rydym yn rhagdybio bod myfyrwyr yr RPA yn**

¹⁸ Yn rhagolwg Lloegr o effaith yr RPA, defnyddiwyd dystiolaeth ar gyfraddau cyrhaeddiad y rhai sy'n dychwelyd ym mlwyddyn 13 yn yr Astudiaeth Carfan Ieuencid i amcangyfrif y gostyngiad i'r gyfradd cyrhaeddiad, a gosodwyd hyn ar 66% neu 57% gan ddibynnu ar gyrhaeddiad blaenorol y myfyrwyr a lefel y cymhwyster. O ystyried ein bod ni, yn wahanol i'r model yn Lloegr, yn caniatáu i gyfraddau cyrhaeddiad amrywio yn ôl statws cymhwysra gydol oes am brydau ysgol am ddim yn ogystal â chyrhaeddiad blaenorol, ac yn defnyddio grŵp cymharu sy'n cynnwys dim ond y rhai sydd â thebygolrwydd isel o aros mewn addysg neu hyfforddiant, teimlwn fod 66.7% yn ddewis realistig ar gyfer yr amcangyfrif gyda gwerth is o 50% yn cael ei ddefnyddio yn ein senarios amgen dibynadwy.

cyrraedd cyfradd o 66.7% o'r grŵp cymharu. O ystyried yr ansicrwydd ynghylch y gyfradd cyrraedd i'w defnyddio, rydym hefyd yn cyflwyno amcangyfrifon gyda'r gyfradd cyrraedd wedi'i gostwng i 50%.

Gan gymhwyso'r ffactor graddio i lawr hwn, gallwn gyfrifo nifer y cymwysterau ychwanegol a enillwyd ar gyfer pob grŵp. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, yng ngoleuni canfyddiadau'r llenyddiaeth ansoddol yn y maes hwn (Maguire, 2021), yn yr holl fodelu rydym yn rhagdybio bod cydymffurfiaeth â pholisi'r RPA yn sylweddol is na 100%. Yn seiliedig ar y dystiolaeth, **mae'r senario canolog yn rhagdybio cyfradd gydymffurfio o 30%.** O ystyried yr ansicrwydd ynghylch y lefel debygol o gydymffurfio, rydym yn gwerthuso effaith cyfraddau cydymffurfio o 5%, 15%, 30%, a 50%. Rydym hefyd yn cynnwys amcangyfrifon gyda chyfradd cydymffurfio o 100% fel meincnod.

Mae Tabl 10 yn crynhoi'r cymwysterau yr ydym yn rhagweld y byddent yn cael eu cyflawni pan fyddwn yn gostwng cyrraedd 66.7% ac yn tybio cyfradd gydymffurfio o 30% h.y. ein senario canolog (mae Tablau Atodiad A19 ac A20 yn dangos yr hyn sy'n cyfateb i garfanau eraill yn y dyfodol).

Tabl 10: Amcangyfrif o gyrraedd cymwysterau gan fyfyrwyr RPA o dan y polisi, y senario canolog, ar gyfer y garfan sy'n cwblhau CA4 yn 2020

	Bechgyn			Merched		
	Grŵp 2	Grŵp 3	Grŵp 4	Grŵp 2	Grŵp 3	Grŵp 4
2+ Safon Uwch/UG	41	36	3	64	55	5
5 TGAU yn cynnwys S/M	62	43	5	50	30	4
C&G lefel 3	4	3	0	4	3	0
BTEC lefel 3	101	82	8	77	55	6
Galwedigaethol arall lefel 3	4	3	0	11	8	1
C&G lefel 2	67	50	5	23	15	2
BTEC lefel 2	2	1	0	1	1	0
Galwedigaethol arall lefel 2	35	26	3	36	22	3
Prentisiaeth lefel 3	5	4	0	3	2	0
Prentisiaeth lefel 2	34	63	3	15	37	1

Ffynhonnell: cyfrifiadau'r awdur gan ddefnyddio Cronfa Ddata Genedlaethol Disgyblion Cymru, y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, y Casgliad Data Ôl-16 a Chofnod Dysgu Gydol Oes Cymru a rhagfynegiad model.

Mae'r maint bach iawn a ragwelwn ar gyfer cyfranogwyr grŵp 4, ynghyd â'r gyfradd gydymffurfio a'r gyfradd cyrhaeddiad wedi'i gostwng, yn arwain at ychydig iawn o gymwysterau ychwanegol o unrhyw fath sy'n cael eu cyflawni gan y grŵp hwn o fyfyrwyr; mae hyn yn wir am fechgyn a merched. Ar gyfer grwpiau 2 a 3 rhagwelir y bydd llawer mwy o gymwysterau i'w cael, gyda merched ym mhob grŵp yn cael mwy o gymwysterau Safon Uwch na TGAU, a rhagwelir y bydd bechgyn yn ennill mwy mewn TGAU na Safon Uwch – gan adlewyrchu'r gwahaniaeth mewn llwybrau academaidd y mae bechgyn a merched yn ymgymryd â hwy yn y grwpiau hyn. Ar gyfer y ddau ryw, mae mwy o gymwysterau wedi'u cyflawni gan grŵp 2 o'i gymharu â grŵp 3 er bod hyn yn cael ei yrru'n rhannol gan faint mwy grŵp 2 (20% yn fwy na grŵp 3 ar gyfer bechgyn, 33% yn fwy i ferched) ond bydd hefyd yn adlewyrchu nodweddion gwahanol y myfyrwyr grŵp 2 a'r llwybrau y maent yn eu dewis. Mae nifer y prentisiaethau lefel 2 a ragwelir ar gyfer grŵp 3 yn cynnwys y rhai sydd ar gyfer swyddi heb hyfforddiant ffurfiol sy'n troi'n brentisiaethau.

Modelu cyrhaeddiad gwirfoddol cyfranogwyr grŵp 2 a grŵp 4 yn absenoldeb polisi'r RPA

Cam nesaf y modelu yw amcangyfrif y cymwysterau ychwanegol a enillwyd o dan yr RPA ac amcangyfrif gwerth economaidd ychwanegol y cymwysterau hyn. Er mwyn gwneud hyn, mae angen i ni amcangyfrif yn gyntaf y cyraeddiadau yr ydym yn rhagweld y byddai pob grŵp yr effeithir arno – grŵp 2, grŵp 3 a grŵp 4 – yn eu cyflawni dros y ddwy flynedd ar ôl 16 oed, a dileu'r cyraeddiadau yr ydym yn amcangyfrif y byddai myfyrwyr yng ngrwpiau 2 a 4 yn eu cyflawni yn y flwyddyn y maent yn cymryd rhan yn wirfoddol yn absenoldeb polisi'r RPA.

Am ein *bod* ni'n arsylwi ar y llwybrau a'r cyraeddiadau y mae myfyrwyr yn y grwpiau hyn mewn carfannau blaenorol yn ymgymryd â hwy, gallwn ddefnyddio'r wybodaeth hon i amcangyfrif y llwybrau a'r cyraeddiadau dros flwyddyn o addysg neu hyfforddiant i fyfyrwyr carfannau yn y dyfodol yr ydym yn disgwyl iddynt fod yn y grwpiau hyn. Fel gyda'r prif fodel, amcangyfrifwn y llwybrau a'r cyraeddiadau hyn ar wahân ar gyfer pob cell a ddiffinnir gan gymhwysra gydol oes am brydau ysgol am ddim a chyrhaeddiad blaenorol yn 16 oed. Yn wahanol i'r prif fodel, nid oes rhaid i ni wneud dim pellach i adeiladu grŵp cymharu gan y gallwn ddefnyddio'r set gyfan o fyfyrwyr grŵp 2 a grŵp 4 o garfannau blaenorol fel y grŵp cymharu. Mae Tablau A15-A18 yn yr atodiad yn cynnwys y matrices llwybrau a'r matrices cyraeddiadau ar gyfer grŵp 2 a grŵp 4 yn absenoldeb y polisi. Mae'r cyraeddiadau a amcangyfrifwn ar gyfer pob un o'r grwpiau hyn yn absenoldeb RPA wedi'u cynnwys yn Nhabl 11 isod. Mae'n bwysig nodi, yn wahanol i gyfranogiad a chyrhaeddiad grwpiau 2 a 4 o dan RPA, nad yw'r cyraeddiadau hyn yn cael eu haddasu ar gyfer cydymffurfio. O ystyried bod y rhain yn amcangyfrifon o gyrrhaeddiad o gyfranogiad gwirfoddol, ni fyddai'n gwneud

synnwyr eu graddio i lawr gan bamedr cydymffurfio gan nad yw'r cyfranogiad hwn o ganlyniad i gydymffurfio (neu beidio) â pholisi ond mae'n cael ei wneud yn wirfoddol.

Amcangyfrif o'r cyraeddiadau net yn ôl grŵp

Rydym yn defnyddio'r amcangyfrifon o gyrhaeddiad ar ôl dwy flynedd ar gyfer pob grŵp o dan bolisi'r RPA, a'r amcangyfrifon o gyrhaeddiad ar ôl blwyddyn yr ydym yn ei ddisgwyl ar gyfer grŵp 2 a grŵp 4 yn absenoldeb y polisi, amcangyfrif y cyrhaeddiad net ar gyfer pob grŵp o dan RPA. Ar gyfer grŵp 3 nid oes dim i'w gyfrifo'n net gan nad ydynt yn cymryd rhan yn y naill flwyddyn na'r llall yn absenoldeb y polisi.

Mae'r gyfradd gydymffurfio a dybiwn o dan yr RPA yn ymwneud ag ymgysylltu â pholisi'r RPA dros y cyfnod o ddwy flynedd ar ôl 16 oed. Fel y nodwyd uchod, ar gyfer grwpiau 2 a 4, yn absenoldeb y polisi, byddai disgwyl i'r myfyrwyr yn y grwpiau hyn gymryd rhan a chyrraedd cymwysterau yn unol â chyrhaeddiad cyfranogwyr gwirfoddol o garfanau blaenorol. Rydym yn tybio, yn yr amcangyfrifon gyda'r polisi RPA a weithredwyd, mai'r cyraeddiadau y byddai myfyrwyr grŵp 2 a grŵp 4 yn eu cyflawni yn absenoldeb y polisi yw'r cyraeddiadau gofynnol y byddem yn disgwyl i fyfyrwyr yr RPA yng ngrwpiau 2 i 4 eu cyflawni i gyd – waeth beth fo'r gyfradd gydymffurfio. Ni fyddai'n rhesymegol amcangyfrif lefelau cyrhaeddiad is yn y grwpiau hyn gyda pholisi gorfodol nag a fyddai'n cael ei gyflawni'n wirfoddol yn absenoldeb y polisi. Felly, pan fyddwn yn addasu cydymffurfiaeth, os yw hyn yn awgrymu lefel cyrhaeddiad islaw'r cyraeddiadau amcangyfrifedig y byddai grŵp 2 a grŵp 4 yn eu cyflawni yn absenoldeb y polisi, nid ydym yn cofnodi effaith negyddol y polisi; yn hytrach rydym yn cymryd dim effaith y polisi yn y grwpiau hyn. Hynny yw, nid ydym yn caniatáu i'r polisi gorfodol arwain at lefelau cyrhaeddiad is nag y byddem yn ei ddisgwyl pan fydd cyfranogiad yn wirfoddol. Ar gyfer grŵp 3 nid oes unrhyw gymwysterau wedi'u cyflawni yn absenoldeb y polisi ac felly waeth beth fo lefel cydymffurfiaeth, mae effaith gadarnhaol bron bob amser ar y polisi yn y grŵp hwn.

Tabl 11: Amcangyfrif o gyrhaeddiad cymwysterau ychwanegol net gan fyfyrwyr RPA o dan y polisi, y senario canolog, ar gyfer y garfan sy'n cwblhau CA4 yn 2020

Bechgyn	Grŵp 2			Grŵp 3			Grŵp 4			Cyfanswm ychwanegol
	<i>O dan RPA</i>	<i>RPA absennol</i>	<i>Ychwanegol net</i>	<i>O dan RPA</i>	<i>RPA absennol</i>	<i>Ychwanegol net</i>	<i>O dan RPA</i>	<i>RPA absennol</i>	<i>Ychwanegol net</i>	
2+ Safon Uwch/UG	41	34	7	36	0	36	3	4	0	43
5 TGAU (S/M)	62	121	0	43	0	43	5	7	0	43
Nifer y C&G L3	4	5	0	3	0	3	0	0	0	3
Nifer y BTEC L3	101	52	49	82	0	82	8	10	0	131
Nifer y cym. galw. eraill L3	4	3	2	3	0	3	0	1	0	5
Nifer y C&G L2	67	67	0	50	0	50	5	14	0	50
Nifer BTEC L2	2	13	0	1	0	1	0	1	0	1
Nifer y cym. galw. eraill L2	35	49	0	26	0	26	3	5	0	26
Nifer prentisiaethau L3	5	0	5	4	0	4	0	2	0	9
Nifer prentisiaethau L2	34	18	16	63	0	63	3	16	0	80

Merched	Grŵp 2			Grŵp 3			Grŵp 4			Cyfanswm ychwaneg ol
	O dan RPA	RPA absennol	Ychwaneg ol net	O dan RPA	RPA absennol	Ychwaneg ol net	O dan RPA	RPA absennol	Ychwaneg ol net	
2+ Safon Uwch/UG	64	55	9	55	0	55	5	3	2	66
5 TGAU (S/M)	50	95	0	30	0	30	4	9	0	30
Nifer y C&G L3	4	2	2	3	0	3	0	1	0	5
Nifer y BTEC L3	77	73	3	55	0	55	6	10	0	59
Nifer y cym. galw. eraill L3	11	1	10	8	0	8	1	0	1	19
Nifer y C&G L2	23	35	0	15	0	15	2	2	0	15
Nifer BTEC L2	1	0	1	1	0	1	0	1	0	2
Nifer y cym. galw. eraill L2	36	96	0	22	0	22	3	7	0	22
Nifer prentisiaethau L3	3	1	2	2	0	2	0	3	0	4
Nifer prentisiaethau L2	15	9	6	37	0	37	1	8	0	43

Ffynhonnell: cyfrifiadau'r awdur gan ddefnyddio Cronfa Ddata Genedlaethol Disgyblion Cymru, y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, y Casgliad Data Ôl-16 a Chofnod Dysgu Gydol Oes Cymru a rhagfynegiad model.

Dengys Tabl 11 y cyraeddiadau ychwanegol net a ddisgwyliwn ar gyfer pob grŵp o ganlyniad i'r RPA (mae Tablau Atodiad A19 ac A20 yn dangos yr hyn sy'n cyfateb ar gyfer carfanau eraill yn y dyfodol). Nid yw addasu cydymffurfiaeth i lawr i 30% yn arwain at fwy o gyrhaeddiad o gwbl gan gyfranogwyr grŵp 4 nag y byddem yn disgwyl ei gyflawni'n wirfoddol yn absenoldeb y polisi, ar gyfer bron pob math o gymhwyster ar gyfer y ddau ryw.¹⁹ Yn yr un modd ar gyfer grŵp 2, mae'r addasiad i'r gyfradd gydymffurfio o dan RPA yn golygu mai dim ond enillion net bach sydd o ran cyraeddiadau ychwanegol ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o gymhwyster, ac eithrio BTEC lefel 3 ar gyfer bechgyn. Yng ngrŵp 3 y gwelir manteision y polisi ar eu hamlycaf; yma mae nifer o gymwysterau ychwanegol o bob math, yn enwedig i fechgyn, hyd yn oed gyda lefel cydymffurfio o 30%. Mae hyn yn arbennig o wir am gymwysterau galwedigaethol, gyda 77 o gymwysterau galwedigaethol lefel 2 ychwanegol, ynghyd â 63 o brentisiaethau lefel 2, a chydag 88 o gymwysterau galwedigaethol lefel 3 ychwanegol.

Cam 4: Amcangyfrif gwerth economaidd gydol oes y cyraeddiadau ychwanegol hyn.

Ar ôl amcangyfrif y cynnydd mewn ystod o gymwysterau y rhagwelwn y bydd y cyfranogwyr ychwanegol yn eu caffael, a dileu'r cyraeddiadau yr ydym yn disgwyl y byddai'r myfyrwyr hyn wedi'u cyflawni'n wirfoddol yn absenoldeb y polisi ar gyfer pob grŵp, rydym mewn sefyllfa i neilltuo gwerth economaidd i'r cymwysterau ychwanegol hyn. Gan ein bod yn tybio bod cymwysterau ychwanegol yn cael effaith gadarnhaol ar gyflogaeth ac enillion drwy gydol oes waith yr unigolyn, rydym yn rhoi gwerth i'r cyraeddiadau ychwanegol yn seiliedig ar amcangyfrifon o'u gwerth economaidd gydol oes.

Amcangyfrifwyd yn flaenorol y cynnydd mewn cynhyrchiant oes sy'n gysylltiedig â'r set o gymwysterau sydd o ddiddordeb inni gan yr Adran Addysg (2014) a'r hen Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau (2011). Mae'r cyntaf yn amcangyfrif yr enillion cynhyrchiant gydol oes ar gyfer cymwysterau Safon Uwch, 5A*-C TGAU gan gynnwys Saesneg a Mathemateg, a phrentisiaethau ar lefel 2 a lefel 3, pob un ar wahân yn ôl rhywedd;

¹⁹ I fechgyn, amcangyfrifwyd cynnydd net bychan mewn gwirionedd yng nghyrrhaeddiad City & Guilds lefel 3 er mai sero ydyw yn y bôn (+0.02).

mae'r olaf yn amcangyfrif yr enillion ar gyfer City & Guilds ar lefel 2 a lefel 3, BTEC ar lefel 2 a lefel 3, a chymwysterau NVQ ar lefel 2 a lefel 3.²⁰

Mae'r fethodoleg a ddefnyddir i gyfrifo'r gwerthoedd economaidd yn debyg iawn ym mhob achos, ac mae'n dilyn y canllawiau a nodir yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM.²¹

Mae'r amcangyfrifon ar gyfer yr enillion ymylol i ennill y cymwysterau hyn o'u cymharu â chymwysterau un lefel islaw, wedi'u disgowntio'n ôl i'r presennol.²² Ym mhob achos, y dybiaeth yw mai'r cymhwyster newydd yw'r uchaf y mae unigolyn yn ei ennill. O ystyried bod cyfranogwyr yr RPA yn cael eu gorfodi i ymgymryd â'r cymwysterau hyn o gwbl, mae'n dybiaeth resymol, ar ôl cwblhau eu dwy flynedd bellach mewn addysg, eu bod wedyn yn dewis ymuno â'r farchnad lafur. Yn seiliedig ar y dystiolaeth ansoddol yn y maes hwn, rydym yn gwneud y dybiaeth geidwadol hon sy'n diystyru'r rhai sy'n cyrraedd 2 neu fwy Safon Uwch yn mynd ymlaen i gael gradd, ac os felly byddai'r enillion ar y 2 neu fwy Safon Uwch yn uwch nag yr amcangyfrifwn.

²⁰ Mae nifer o gymwysterau galwedigaethol nad ydynt yn rhai City & Guilds, BTEC neu NVQ. Ar gyfer y rhain rydym yn rhoi gwerth i'r cymhwyster gan ddefnyddio'r gwerth NVQ o ystyried bod cymwysterau NVQ yn cwmpasu ystod ehangach o feysydd pwnc na chymwysterau mwy penodol City & Guilds a BTEC. Ym mhob achos, rydym yn sicrhau bod y cymhwyster galwedigaethol yn cael ei gyfrif dim ond os yw o faint tebyg i gymhwyster City & Guilds neu BTEC safonol ar yr un lefel.

²¹ <https://www.gov.uk/government/publications/the-green-book-appraisal-and-evaluation-in-central-government>

²² Rhyddhawyd y ddau adroddiad gan y Llywodraeth lle mae'r amcangyfrifon hyn yn deillio yn 2014 a 2011 yn y drefn honno a defnyddiant ddata hyd at y pwynt hwnnw i gyfrifo'r prisiau oes. Mae'r ffigurau y maent yn adrodd amdanynt wedi'u diweddarau hyd at werthoedd 2019 gan ddefnyddio Lefel Economi Gyfan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (£): Tâl Rheolaidd wedi'i Addasu'n Dymhorol Ac Eithrio Ôl-ddyledion i addasu yn unol â thwf cyflog cyfartalog. Mae ffigurau adroddiad 2011 wedi'u haddasu i adlewyrchu union fethodoleg adroddiad 2014. Ym mhob achos, mae'r ffigurau cynhyrchiant hyn yn rhagdybio cynnydd o 30% dros y premiwm cyflog sy'n gysylltiedig â'r cymhwyster, ond nid ydynt yn tybio unrhyw dwf cyflog blynyddol awtomatig. Mae'r ffigurau hefyd yn tybio mai 100% o'r enillion cyflogaeth a amcangyfrifir yw effaith achosol uniongyrchol cyrraedd y cymhwyster.

Tabl 12: Gwahaniaethau cynhyrchiant oes gostyngol yn ôl rhyw

Cymhwyster	Dynion	Benywod
2+ Safon Uwch	£104,000	£88,000
Prentisiaeth Lefel 3	£202,000	£90,000
City & Guilds Lefel 3	£135,000	£135,000
BTEC Lefel 3	£97,000	£97,000
Galwedigaethol arall Lefel 3	£101,000	£101,000
5A*-C TGAU (gan gynnwys Saesneg/Mathemateg)	£119,000	£122,000
Prentisiaeth Lefel 2	£160,000	£78,000
City & Guilds Lefel 2	£104,000	£104,000
BTEC Lefel 2	£83,000	£83,000
Galwedigaethol arall Lefel 2	£63,000	£63,000

Ffynhonnell: Safon Uwch, TGAU, prentisiaethau: cyfrifiadau'r awdur gan ddefnyddio'r Adran Addysg (2014); City & Guilds, BTEC, galwedigaethol arall: cyfrifiadau'r awdur gan ddefnyddio'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau (2011); gwerthoedd gostyngol yn 2019 £, gan ddefnyddio Cyfres Amser Enillion Wythnosol Cyfartalog y Swyddfa Ystadegau Gwladol (EMP).

Mae Tabl 12 yn crynhoi gwerth presennol gostyngol pob cymhwyster.

Mae'r fethodoleg safonol ar gyfer amcangyfrif enillion ar gymwysterau yn rhoi amcangyfrif yn seiliedig ar gyflwr cyson y farchnad lafur, hynny yw, gan dybio bod dosbarthiad cymwysterau ymhlith gweithwyr eraill yn cael ei gynnal yn gyson. Mewn gwirionedd, bydd y cyflenwad o unigolion sydd â'r cymwysterau hynny yn y farchnad lafur yn effeithio ar yr enillion ar gymwysterau – wrth i fwy o unigolion feddu ar gymhwyster penodol, bydd yr elw economaidd sy'n gysylltiedig ag ef yn gostwng, gan dybio lefel gyson o alw am weithwyr sydd â'r cymhwyster hwnnw. Er mwyn i'r gwerthoedd hyn a amcangyfrifir fod yn briodol felly, rhaid nad yw'r cyfranogwyr ychwanegol sy'n deillio o'r RPA mor niferus fel bod y cyflenwad o weithwyr sydd â phob cymhwyster yn newid yn ddigonol i effeithio ar yr enillion ecwilibriwm sy'n gysylltiedig â phob cymhwyster. O ystyried y niferoedd cymharol fach o unigolion ym mhob carfan y mae'r RPA yn effeithio arnynt, mae'n debygol iawn na fyddai'r cynnydd yn y cyflenwad o weithwyr sydd â'r cymwysterau ychwanegol hyn yn effeithio ar yr enillion hyn a amcangyfrifir.

Mae'r prisiadau economaidd a amcangyfrifwyd ar gyfer y set o gymwysterau a archwiliwyd gennym yn seiliedig ar y cynnydd mewn cynhyrchiant oes sy'n gysylltiedig ag unigolion sy'n ennill y cymwysterau hyn yn wirfoddol. Gallwn greu

grŵp cymharu o fyfyrwyr sydd â chefnidir a phroffil cyrhaeddiad addysgol blaenorol gweddol debyg i fyfyrwyr yr RPA, ac mae hyn yn rhoi hyder bod y llwybrau a'r lefelau cyrhaeddiad a amcangyfrifir yn realistig, yn enwedig ar ôl i gyfraddau cyrhaeddiad gael eu gostwng. Gyda'r prisiadau economaidd, fodd bynnag, nid oes gwahaniaethu yn ôl cefndir o ran gwerth y cymhwyster ac mewn rhai achosion nid oes gwahaniaethu yn ôl rhyw. Felly, ni allwn gymhwyso prisiadau sy'n fwy perthnasol i'r grŵp o fyfyrwyr RPA yn yr un modd ag y gwnaethom addasiadau priodol yng nghamau cynharach y modelu.

Gwyddom fod myfyrwyr yr RPA yn wahanol i'r rhai sy'n parhau i gymryd rhan yn wirfoddol ar ôl 16 o ran eu nodweddion y gellir eu gweld ac mae'n debygol iawn eu bod hefyd yn wahanol mewn nodweddion na ellir eu gweld – cydwybodolrwydd, cymhelliant, cyfeiriadedd yn y dyfodol, uchelgais er enghraifft – sy'n effeithio ar eu dewis ôl-16 a hefyd yn effeithio ar eu canlyniadau yn y farchnad lafur, megis proffil cyflogaeth gydol oes ac enillion. O'r herwydd, mae'r enillion oes a amcangyfrifir i'r cymwysterau ychwanegol a gymerwyd o'r llenyddiaeth yn debygol o or-amcangyfrif yr enillion oes i'r un cymwysterau hyn ar gyfer myfyrwyr yr RPA. **Rydym yn rhagdybio'n geidwadol mai dim ond 50% o'r enillion ar gyfer y myfyrwyr sy'n ennill y cymwysterau hyn yn wirfoddol yw'r enillion ar gyfer myfyrwyr yr RPA.** Fodd bynnag, rydym hefyd yn cyflwyno amcangyfrifon ychwanegol o dan y senario lle mae'r enillion ar gyfer myfyrwyr RPA yr un fath â'r enillion ar gyfer myfyrwyr sy'n eu caffael yn wirfoddol.

Amcangyfrif o fanteision economaidd cyraeddiadau'r RPA

Ar ôl amcangyfrif y cymwysterau ychwanegol yr ydym yn disgwyl y byddent yn cael eu cyflawni o dan y polisi, mae bellach yn bosibl lluosu nifer y cymwysterau ychwanegol hyn â'u gwerthoedd cynhyrchiant oes amcangyfrifedig er mwyn cael amcangyfrif o werth economaidd y polisi.

Fel y trafodwyd yn yr is-adrannau blaenorol, rydym yn tybio bod 25% o'r rhai yng ngrŵp 3 mewn swyddi gyda hyfforddiant a bod 25% o'r rhain yn troi'n brentisiaethau ar lefel 2. Rydym hefyd yn tybio, o fewn celloedd a ddiffinnir gan gymhwysterau gydol oes am brydau ysgol am ddim a chyrhaeddiad blaenorol yn 16 oed, fod dosbarthiad llwybrau cymwysterau myfyrwyr yr RPA yn dilyn yr un dosbarthiad â'r grŵp cymharu o gyfranogwyr grŵp 1 tebygolrwydd isel mewn carfannau blaenorol. Rydym yn tybio bod cyrhaeddiad cymwysterau ymhlith myfyrwyr yr RPA yn 66.7% o gyfradd myfyrwyr gwirfoddol yn y grŵp cymharu a bod gwerth economaidd oes y cymwysterau hyn yn 50% o werth rhai myfyrwyr gwirfoddol yn y grŵp cymharu. Mae'r canfyddiadau hyn wedi'u crynhoi yn nhabl 13. Yn yr adran ganlynol rydym yn cyflwyno amcangyfrifon o dan ragdybiaethau modelu amgen, sydd wedyn yn caniatáu i ni lunio ystod o amcangyfrifon dibynadwy ar gyfer effaith economaidd bosibl y polisi.

Tabl 13: Crynodeb o ragdybiaethau modelu yn y senario canolog

Cydymffurfio â'r polisi	30%
% y swyddi sy'n troi'n brentisiaethau	25%
Dosbarthiad llwybrau cymhwyster	Yn unol â'r grŵp cymharu
% cyfradd cyrhaeddiad o'i chymharu â chyfranogwyr gwirfoddol	66.7%
Prisiad economaidd o gymwysterau o gymharu â chyfranogwyr gwirfoddol	50%


Ceir crynodeb o fanteision economaidd amcangyfrifedig yr RPA mewn addysg neu hyfforddiant i 18 yng Nghymru yn Nhabl 14 a Ffigur 7 ar gyfer y garfan a gwblhaodd CA4 yn 2020. Mae'r amcangyfrifon cyfatebol ar gyfer y carfannau sy'n cwblhau CA4 yn 2021 a 2022 yn y Tablau Atodiad A21 ac A22, gyda'r cyfansymiau cyffredinol ar gyfer y blynyddoedd hyn hefyd yn cael eu harddangos yn Nhabl 15 a Ffigur 8.

Tabl 14: Amcangyfrif o fanteision economaidd yr RPA i 18 yng Nghymru, senario canolog, carfan yn cwblhau CA4 yn 2020

	Bechgyn	Merched	Cyfanswm
Manteision economaidd cyraeddiadau ychwanegol cyfranogwyr grŵp 2	£4,628,000	£1,969,000	£6,597,000
Manteision economaidd cyraeddiadau ychwanegol cyfranogwyr grŵp 3	£17,736,000	£11,411,000	£29,147,000
Manteision economaidd cyraeddiadau ychwanegol cyfranogwyr grŵp 4	£1,515	£141,000	£143,000
Budd economaidd ychwanegol cyffredinol	£22,366,000	£13,521,000	£35,887,000

Ffynhonnell: Data cyfunol o bob cam modelu.


Ffigur 7: Amcangyfrif o fanteision economaidd yr RPA i 18 yng Nghymru, senario canolog, carfan yn cwblhau CA4 yn 2020



Tabl 15: Amcangyfrif o fanteision economaidd yr RPA i 18 yng Nghymru, senario canolog, yn ôl carfan

		Bechgyn	Merched	Cyfanswm
Carfan yn cwblhau CA4 yn 2020-2022				
	N			
2020	31,606	£22,366,000	£13,521,000	£35,887,000
2021	31,983	£23,462,000	£14,234,000	£37,696,000
2022	33,165	£25,317,000	£15,255,000	£40,571,000

Ffigur 8: Amcangyfrif o fanteision economaidd yr RPA i 18 yng Nghymru, senario canolog, yn ôl carfan



Amcangyfrif y senario canolog yw y byddai gan y cymwysterau ychwanegol a gyrhaeddwyd o dan bolisi'r RPA werth cynhyrchiant oes ychwanegol o £35.9 miliwn. Mae Tabl 14 yn dangos bod mwyafrif llethol manteision economaidd y polisi yn ymwneud â'r cyraeddiadau ychwanegol a amcangyfrifir i'r grwp o fyfyrwyr na fyddent wedi cymryd rhan o'r blaen ym mlwyddyn 12 na blwyddyn 13 (grwp 3). Ychydig iawn o fyfyrwyr yng ngrŵp 4 sy'n gadael addysg a hyfforddiant ar ôl CA4 ond sy'n dychwelyd i gymryd rhan ym mlwyddyn 13. Yn absenoldeb RPA, amcangyfrifir bod y myfyrwyr hyn yn ennill rhai cymwysterau yn eu blwyddyn o gyfranogiad ac ar gyfer RPA, nid ydym ond yn rhoi gwerth i'w cyraeddiadau

uwchlaw'r rhai yr ydym yn amcangyfrif y byddent wedi'u cyflawni ym mlwyddyn 13 yn unig. Ynghyd â rhagdybiaeth o 30% yn unig o gydymffurfiaid â'r polisi, mae hyn yn arwain at sicrhau dim cymwysterau ychwanegol i bob pwrpas gan y grŵp hwn.

Ar gyfer grŵp 2, a fyddai'n cymryd rhan yn wirfoddol ym mlwyddyn 12, rydym yn yr un modd yn amcangyfrif eu cyraeddiadau o ran cymwysterau ym mlwyddyn 12 ac yn tynnu'r lefel hon o gyrhaeddiad cymwysterau o'r cyraeddiadau a amcangyfrifwn ar gyfer y grŵp hwn o dan RPA. Mae'r myfyrwyr hyn yn ennill llawer mwy o gymwysterau o dan RPA nag a ddisgwylid fel arall, ac felly hyd yn oed gyda dim ond 30% o gydymffurfiaeth mae gwerth economaidd ychwanegol, yn enwedig i fechgyn. Mae'r flwyddyn ychwanegol o gyfranogiad yn gyrru mwy o gyrhaeddiad o ran cymwysterau galwedigaethol lefel 3 na fyddai'n cael eu cyflawni mewn blwyddyn o gyfranogiad yn unig yn absenoldeb y polisi. Fel y dangosir uchod, mae'r polisi'n effeithio ar fwy o fechgyn ac maent yn tueddu i ddewis mwy o'r cyrsiau galwedigaethol sy'n dwyn elw economaidd uwch. Fel y dengys Tabl 12, amcangyfrifir bod yr enillion economaidd i gymwysterau yn uwch i ddynion mewn llawer o achosion ac felly'r amcangyfrifon gwerth economaidd uwch ar gyfer bechgyn yng grwpiau 2 a 3 sy'n ffurfio mwyafrif llethol y cyfranogwyr ychwanegol.

Mae Tabl 15 yn dangos bod amrywiad yn yr amcangyfrifon fesul blwyddyn ond bod yr amrywiad hwn yn ymwneud yn bennaf â maint y garfan wrth i niferoedd crai'r cyfranogwyr ychwanegol gynyddu gyda maint y garfan.

Dadansoddiad senarios amgen

Mae'r broses fodelu yn ymgorffori nifer o dybiaethau mewn perthynas â:

- chydymffurfio â'r polisi;
- canran y swyddi sydd â hyfforddiant sy'n troi'n brentisiaethau;
- y llwybrau a gymerwyd gan y myfyrwyr RPA ychwanegol;
- y gyfradd y maent yn ennill y cymwysterau hyn; a
- phrisiaid economaidd cymharol y cyraeddiadau hyn.

Yn y dadansoddiad senarios amgen dilynol, rydym yn cynnal y dybiaeth, yn seiliedig ar y dystiolaeth ansoddol (gweler Maguire, 2021), bod 25% o swyddi heb hyfforddiant yn troi'n brentisiaethau ar lefel 2. Fel y trafodwyd uchod, amcangyfrifwn mai dim ond 25% o grŵp 3 fyddai mewn swyddi heb hyfforddiant ffurfiol yn absenoldeb yr RPA ac felly dim ond effaith fach ar gyraeddiadau cyffredinol myfyrwyr yr RPA a geir drwy newid canran y swyddi hyn sy'n troi'n brentisiaethau. Ar gyfer gwerth economaidd y cymwysterau, bydd cynyddu canran gwerth pob cymhwyster i fyfyrwyr gwirfoddol yn graddio cyfanswm y gwerthoedd a amcangyfrifwn yn syml gan ddefnyddio 50%. Isod

rydym yn dangos ein hamcangyfrifon sy'n caniatáu ar gyfer yr un elw economaidd (100%) i fyfyrwyr yr RPA â'r myfyrwyr gwirfoddol. Yn ogystal, mae ein dadansoddiad senario amgen yn ystyried effaith newid cydymffurfiaeth â'r polisi, y llwybrau a gymerwyd gan fyfyrwyr yr RPA a chyfradd cyrhaeddiad y myfyrwyr hyn.

Yng ngoleuni'r dystiolaeth ansoddol (gweler Maguire, 2021) credwn mai'r paramedr allweddol yn y model yw graddau'r cydymffurfio â'r polisi a gyflawnir. Yn seiliedig ar y dystiolaeth, mae ein senario canolog yn rhagdybio cydymffurfiaeth o 30%, ond isod rydym yn dangos yr effaith newid hyn i werthoedd gwahanol o 5% i 50% ar gyraeddiadau a phrисиadau, ynghyd â'r cyraeddiadau ar gyfer cydymffurfiaeth o 100% fel meincnod.

Tabl 16: Amcangyfrif o nifer y cymwysterau ychwanegol oherwydd RPA, tybiaethau modelu amgen

Bechgyn:



Cydymffurfiaeth	2+ Safon Uwch	5A*-C TGAU	L3 galw.	L2 galw.	Pren. L3	Pren. L2
5%	6	7	15	13	1	42
15%	18	21	44	38	4	51
30%	43	43	139	77	9	80
50%	96	73	273	182	15	119
100%	230	237	618	486	29	218
Senario canolog ond gyda...						
... dim ond cyfradd cyrhaeddiad o 50%	27	32	91	58	7	55
... dim llwybrau academiaidd	4	38	286	95	17	94
... % L3 is	31	46	28	172	10	134

Merched:

Cydymffurfiaeth	2+ Safon Uwch	5A*-C TGAU	L3 galw.	L2 galw.	Pren. L3	Pren. L2
5%	9	5	12	6	0	29
15%	27	15	38	19	1	33
30%	66	30	82	39	4	43
50%	148	50	189	70	7	59
100%	355	174	464	202	15	100
Senario canolog ond gyda...						
... dim ond cyfradd cyrhaeddiad o 50%	42	22	58	29	2	30
... dim llwybrau academiaidd	6	27	267	41	9	52
... % L3 is	46	35	27	90	2	76

Ffynhonnell: cyfrifiadau'r awdur gan ddefnyddio Cronfa Ddata Genedlaethol Disgyblion Cymru, y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, y Casgliad Data Ôl-16 a Chofnod Dysgu Gydol Oes Cymru a rhagfynegiad model.

Ffigur 9: Amcangyfrif o nifer y cymwysterau ychwanegol oherwydd RPA, tybiaethau modelu amgen (cydymffurfiaeth)



Ffigur 10: Amcangyfrif o nifer y cymwysterau ychwanegol oherwydd RPA, tybiaethau modelu amgen (cyfradd cyrhaeddiad cymwysterau, dosbarthu llwybrau cymwysterau)



Fel y dangosir yn Nhabl 16²³ a Ffigur 9, effaith cynyddu cydymffurfiaeth o lefelau isel iawn yw cynyddu'n sylweddol nifer y cymwysterau a enillwyd. Mae hyn yn bennaf oherwydd, os oes llai na 30% o gydymffurfio, mae cyraeddiadau grwpiau 2 a 4 o dan RPA yn is na'r hyn y byddem yn disgwyl iddynt ei gyflawni'n wirfoddol yn absenoldeb y polisi ac felly nid oes unrhyw gyraeddiadau ychwanegol gan y grwpiau hyn. Mae hyn yn wir o hyd am grŵp 4 os oes 30% o gydymffurfio, ond wrth i ni symud uwchlaw'r lefel hon, mae cyraeddiadau ychwanegol gan grŵp 3 ond hefyd grŵp 2 (yn arbennig) a grŵp 4 hefyd, gan gynyddu nifer y cymwysterau a enillwyd yn gyflym.

Mae rhesi is Tabl 16 a Ffigur 10 yn dangos effaith pennu pob rhagdybiaeth yn y senario canolog ond yn gyntaf yn amrywio'r gyfradd cyrhaeddiad cymwysterau o 66.7% o'r gyfradd cyrhaeddiad cyfranogwyr gwirfoddol i 50% yn unig, ac yna effaith amrywio dosbarthiad myfyrwyr RPA ar draws llwybrau cymhwyster o'r dosbarthiad ymhlith y grŵp cymharu a ddefnyddiwn yn y senario canolog. Rydym yn cymhwyso dau ddosbarthiad amgen dibynadwy gwahanol. Yn y cyntaf, rydym yn symud pob myfyriwr RPA o lwybrau academiaidd i lwybrau galwedigaethol ar yr un lefel. Yn yr ail, rydym yn lleihau cyfran y myfyrwyr sy'n dilyn llwybrau cymhwyster lefel 3 drwy symud y cyfan ar lwybrau galwedigaethol lefel 3 i lwybrau galwedigaethol lefel 2 a thrwy symud y rhai cyrhaeddiad is yn CA4 (y rhai nad ydynt yn cyrraedd 5A*-C gan gynnwys Saesneg (neu Gymraeg) a Mathemateg mewn TGAU) o lwybrau academiaidd lefel 3 i lwybrau academiaidd lefel 2. I'r rhai sy'n dilyn llwybrau galwedigaethol/academaidd cymysg rydym yn eu newid o lefel 3 i lefel 2. Mae hyn yn arwain at gyfran y myfyrwyr RPA sy'n dilyn cyrsiau lefel 3 yn gostwng o 59% i 25% ar gyfer bechgyn ac o 75% i 37% ar gyfer merched.

O'i gymharu â'r senario canolog (rhes cydymffurfio 30% o Dabl 16), mae lleihau'r gyfradd gyrhaeddiad i ddim ond 50% yn cwtogi chwarter ar gyraeddiadau i draean, sef tua'r hyn y byddem yn ei ddisgwyl o'i gymharu â'r gyfradd cyrhaeddiad o 66.7%. Ceir amrywiad yn hyn oherwydd bod y gostyngiad mewn cyraeddiadau yn effeithio ar senario'r RPA yn unig, nid y cymwysterau a enillwyd gan grŵp 2 a 4 yn absenoldeb y polisi, ac mae'r olaf yn wahanol ar gyfer pob cymhwyster.

Unwaith eto, o'i gymharu â'r senario canolog, mae newid dosbarthiad myfyrwyr ar draws llwybrau cymwysterau fel nad oes yr un ohonynt yn cael ei ddyrannu i'r llwybrau academiaidd, yn lleihau cyrhaeddiad Safon Uwch yn gryf gan fod y rhan fwyaf o fyfyrwyr sy'n dilyn Safon Uwch ar y llwybr hwn. Ar gyfer TGAU, mae'r gostyngiad yn llawer llai gan fod mwy o fyfyrwyr yn gwneud cymysgeddau o gyrsiau academiaidd a galwedigaethol sy'n cynnwys dilyn TGAU Saesneg neu Fathemateg

²³ Adeiladwyd Tablau 16, 17 a 18 gan ddefnyddio'r rhifau o Dablau Atodiad A23-A29 sy'n ail-greu Tabl 11 ar gyfer y saith senario amgen a ddadansoddiwyd.

ynghyd â chymwysterau anacademaidd ychwanegol. Mae'r cynnydd mwyaf yn nifer y cyraeddiadau galwedigaethol lefel 3 – mae hyn oherwydd ailddyrannu myfyrwyr llwybr Safon Uwch i gyrsiau galwedigaethol lefel 3 ar gyfer pob grŵp, a lefel uwch cyrhaeddiad y cymwysterau galwedigaethol hyn o gymharu â Safon Uwch. Mae hyn yn arbennig o amlwg i ferched gan fod gan y senario canolog yn cynnwys 30% o ferched ar y llwybr Safon Uwch (o gymharu ag 20% ar gyfer bechgyn) ac felly mae mwy o ferched yn symud i'r llwybr galwedigaethol lefel 3 nag sy'n wir am fechgyn. Yn olaf, mae lleihau'r cyfrannau sy'n dilyn llwybrau cymhwyster lefel 3 a chynyddu'r rhai sy'n dilyn llwybrau lefel 2 yn cael yr effaith o leihau cyrhaeddiad lefel 3 a chynyddu cyrhaeddiad ar lefel 2, fel y gellid rhagweld. Mae mwy o effaith i fechgyn gan eu bod yn fwy tebygol o fod yn astudio cwrs galwedigaethol lefel 3 na merched, ac yn y llwybrau galwedigaethol a chymysg yr ydym wedi lleihau cyfranogiad lefel 3.

Mae Tabl 16 yn dangos bod yr amcangyfrif o gyrhaeddiad cymwysterau ychwanegol yn sensitif i'r tybiaethau a wnawn am y llwybrau y mae myfyrwyr yn eu cymryd ac i ba raddau y maent yn ennill y cymwysterau y maent yn eu dilyn, o'u cymharu â myfyrwyr tebyg sy'n cymryd rhan yn wirfoddol. Fodd bynnag, y neges allweddol o'r dadansoddiad senario amgen hwn yw pwysigrwydd cydymffurfio ar gyfer pennu'r cyraeddiadau ychwanegol sy'n deillio o'r RPA. Ar gyfer lefelau cydymffurfio o dan 30% mae nifer y cymwysterau ychwanegol yn fach a gellir eu priodoli'n llawn i gyraeddiadau grŵp 3 yn unig.

Dengys Tablau 17 a 18 a Ffigurau 11 a 12 effeithiau'r senarios hyn a mwy ar werth economaidd cymwysterau a enillwyd o dan yr RPA. Mae ein senario canolog yn rhagdybio 30% o gydymffurfio ac mae hyn yn arwain at gyfanswm budd net y polisi o £35.9m ar gyfer y garfan sy'n cwblhau CA4 yn 2020.

Tabl 17: Amcangyfrif o fanteision economaidd yr RPA i 18 yng Nghymru ar gyfer y garfan sy'n cwblhau CA4 yn 2020, dadansoddiad senario amgen: cyfradd cydymffurfio a chyrrhaeddiad

Llwybrau cymhwyster: yn unol â'r grŵp cymharu

Cyddymffurfiaeth	66.7% o gyfradd cyrrhaeddiad			50% o gyfradd cyrrhaeddiad		
	Bechgyn	Merched	Cyfanswm	Bechgyn	Merched	Cyfanswm
5%	£5.6m	£2.8m	£8.4m	£4.2m	£2.1m	£6.3m
15%	£10.6m	£6.6m	£17.2m	£8.0m	£4.9m	£12.8m
30%	£22.4 m	£13.5m	£35.9m	£15.5m	£9.4m	£24.8m
50%	£42.2m	£27.2m	£69.4m	£28.8m	£18.3m	£47.0m
100%	£98.9m	£68.6m	£167.5m	£69.1m	£46.8m	£115.9m

Ffynhonnell: Data cyfunol o bob cam modelu. Rhagdybiaethau yn unol â'r senario canolog ar wahân i gydymffurfiaeth a chyfradd cyrrhaeddiad.



Tabl 18: Amcangyfrif o fanteision economaidd yr RPA i 18 yng Nghymru ar gyfer y garfan sy'n cwblhau CA4 yn 2020, dadansoddiad senario amgen: cyfradd cydymffurfio a chymhwyster

Cyfradd cyrrhaeddiad: 66.7%


Cyddymffurfiaeth	Pob llwybr galwedigaethol			Gostyngwyd llwybrau Lefel 3		
	Bechgyn	Merched	Cyfanswm	Bechgyn	Merched	Cyfanswm
5%	£6.1m	£3.3m	£9.4m	£5.8m	£2.9m	£8.7m
15%	£14.1m	£8.6m	£22.7m	£12.4m	£7.1m	£19.5m
30%	£30.0m	£20.9m	£50.9m	£25.7m	£14.8m	£40.5m
50%	£54.2m	£38.1m	£92.3m	£46.4m	£27.5m	£73.9m
100%	£119.6m	£85.6m	£205.2m	£108.3m	£70.7m	£179.0m

Ffynhonnell: Data cyfunol o bob cam modelu. Rhagdybiaethau yn unol â'r senario canolog ar wahân i gydymffurfiaeth a llwybrau cymhwyster. Mae cyfranogiad Lefel 3 yn cael ei leihau drwy symud y cyfan ar llwybrau galwedigaethol L3 i llwybrau galwedigaethol L2 a thrwy symud yr isaf eu cyrrhaeddiad ar CA4 o llwybrau academiaidd L3 i llwybrau academiaidd L2. Mae hyn yn arwain at gyfran y myfyrwyr RPA sy'n dilyn cysiau lefel 3 yn gostwng o 59% i 25% ar gyfer bechgyn ac o 75% i 37% ar gyfer merched.


Ffigur 11: Amcangyfrif o fanteision economaidd yr RPA i 18 yng Nghymru ar gyfer y garfan sy'n cwblhau CA4 yn 2020, dadansoddiad senario amgen: cyfradd cydymffurfio a chyrhaeddiad



Ffigur 12: Amcangyfrif o fanteision economaidd yr RPA i 18 yng Nghymru ar gyfer y garfan sy'n cwblhau CA4 yn 2020, dadansoddiad senario amgen: cyfradd cydymffurfio a chymhwyster



Panel chwith Tabl 17 yw'r set o dybiaethau sy'n cynrychioli ein senario canolog, gyda



phob rhes yn cynrychioli lefel wahanol o gydymffurfiaeth. Rydym yn cysgodi'r rhes gydymffurfio o 30% gan fod hon yn cynrychioli ein hamcangyfrif canolog. Mae'n amlwg o Ffigur 11 a phanel chwith Tabl 17, ac yn wir Ffigur 12 a'r panel ar y dde a

dau banel Tabl 18, fod cynyddu cydymffurfiaeth yn cael effaith ddramatig ar y gwerth a amcangyfrifir a bod y berthynas yn aflinol. Yn Ffigur 11 a phanel chwith Tabl 17, mae cynyddu cydymffurfiaeth o 5% i 15% yn rhyw ddyblu'r amcangyfrif o werth economaidd y polisi. Mae dyblu o 15% i 30% o gydymffurfiaeth hefyd yn arwain at ryw ddyblu'r gwerth economaidd, ac wrth symud o 30% i 50% mae'r gwerth eto'n dyblu. Adlewyrchir y patrymau hyn yn y cyfanswm cyffredinol a'r gwerthoedd ar gyfer bechgyn a merched yn y drefn honno. Mae'r prisiadau cymharol isel ar gydymffurfiaeth o 5% yn adlewyrchu'r ffaith mai dim ond cyraeddiadau ychwanegol yng ngrŵp 3 yr ydym yn eu rhagweld o dan y senario hwn – hynny yw, ni fyddai cyraeddiadau grwpiau 2 a 4 yn uwch na'r hyn a ddisgwyliwn yn absenoldeb y polisi ac felly nid oes gwerth economaidd ychwanegol. Wrth i gydymffurfiaeth gynyddu, mae cyraeddiadau grŵp 3 yn cynyddu, fel y mae rhai grwpiau 2 a 4, ac mae'r grwpiau olaf hyn yn dechrau ychwanegu at fanteision economaidd cyffredinol y polisi.

Gan ganolbwyntio ar banel ochr dde Tabl 17, gwelwn fod gostwng cyfradd cyrhaeddiad cymwysterau o 66.7% o gyfradd cyrhaeddiad cyfranogwyr gwirfoddol i 50% yn cael yr effaith o ostwng y gwerthoedd economaidd tua'r un faint â'r gostyngiad hwn. Ar lefelau isel iawn o gydymffurfiaeth, hyd yn oed gyda chyrhaeddiad o 66.7% nid oes unrhyw gyraeddiadau ychwanegol gan grŵp 2 a grŵp 4 o'i gymharu â'r hyn yr ydym yn rhagweld y byddent yn ei gyflawni'n wirfoddol yn absenoldeb y polisi. O'r herwydd, mae'r gwahaniaeth gyda'r panel chwith i gyd yn cael ei yrru gan gyfraddau cymhwyster is ymhlith myfyrwyr grŵp 3. Wrth i gydymffurfiaeth gynyddu, mae'r gwahaniaeth mewn cyraeddiadau rhwng grwpiau 2 a 4 gyda chyfradd cyrhaeddiad o 50% o'i gymharu â 66.7% yn dod yn fwy amlwg ac felly mae'r gwerthoedd yn y panel ar y dde'n lleihau ymhellach yn berthynol i'r gwerthoedd cyfatebol yn y panel chwith nag sy'n wir am gydymffurfiaeth o 5% neu 15%.

Yn unol â'r dadansoddiad o Dabl 16, y canfyddiad allweddol o'r amrywiad cydymffurfio hwn yw y gallai ymgysylltu â'r myfyrwyr a fyddai fel arall yn dewis gadael, ac felly sicrhau cydymffurfiaeth yn uwch na'r lefelau lleiaf yn nwy res gyntaf Tabl 17, gynyddu gwerth economaidd y polisi yn ddramatig. Mae'r canfyddiad hwn yn wir yn set o amcangyfrifon ein senario canolog ond mae hefyd yn wir yn y dadansoddiad senarios amgen eraill yn Nhabl 18 a Ffigur 12.

Gan droi at Dabl 18 (a Ffigur 12), mae'r senarios hyn yn cyfateb yn union i'r senario canolog yn y panel chwith yn Nhabl 17, ac eithrio newid dosbarthiad myfyrwyr ar draws y gwahanol lwybrau cymhwyster. O edrych ar y panel ar y chwith, gwelwn fod newid myfyrwyr i fwrdd o gyrsiau academiaidd ac i raglenni galwedigaethol mewn gwirionedd yn cynyddu gwerth economaidd y polisi. Y rheswm am y canlyniad hwn, sydd efallai'n peri syndod, yw bod gan y rhan fwyaf o fyfyrwyr y bydd y polisi yn effeithio arnynt lefelau cyrhaeddiad is yn CA4, ac i'r myfyrwyr hyn, mae cyfraddau

cyrhaeddiad cymwysterau galwedigaethol yn aml yn uwch nag ar gyfer cymwysterau academiaidd, tra nad yw gwerthoedd economaidd llawer o'r cymwysterau galwedigaethol yn llawer is na'r cymwysterau cyfatebol academiaidd, ac yn achos prentisiaethau mae enillion cymharol uchel. Gwelwn hyn eto yn cael ei adlewyrchu yn y panel ar y dde yn Nhabl 18: mae lleihau cyfran y myfyrwyr sy'n dilyn cymwysterau lefel 3 mewn gwirionedd yn cael effaith gadarnhaol fach ar yr amcangyfrif o gyfanswm gwerth y polisi. Y rheswm am hyn yw bod y cyfraddau cyrhaeddiad mewn cymwysterau lefel 2 ar gyfer y rhan fwyaf o fyfyrwyr yr RPA yn uwch na'r cyfraddau cyrhaeddiad lefel 3, ac er bod enillion ar gymwysterau lefel 3 yn uwch yn gyffredinol, mae'r cynnydd mewn cyrhaeddiad ar lefel 2 yn fwy na gwrthbwysu'r gostyngiad yng ngwerth unigol y cymwysterau, fel bod y canlyniad net yn gynnwys yng nghyfanswm y gwerth economaidd.

Mae Tablau 19 ac 20 yn ailadrodd y dadansoddiad o Dablau 17 a 18 heblaw'r achos lle rydym yn rhagdybio'n gryfach bod gwerth economaidd y cymwysterau a enillir gan fyfyrwyr yr RPA yr un fath yn union â'r gwerth i'r rhai sy'n ennill y cymwysterau'n wirfoddol. Mae'r berthynas rhwng y gwerthoedd yng ngwahanol resi a cholofnau'r tablau hyn, drwy adeiladwaith, yn union yn unol â Thablau 17 a 18 gan fod pob gwerth wedi'i ddyblu, gan adlewyrchu dyblu'r prisiad economaidd o 50% i 100%. Mae'r Tablau wedi'u cynnwys i ganiatáu i ystod ehangach o amcangyfrifon gael eu hystyried yn hawdd. Er enghraifft, gwneud y dybiaeth fwy ceidwadol bod cyrhaeddiad yn 50% o'r gyfradd wirfoddol ond, ar ôl ennill y cymwysterau, eu bod yn rhoi'r un gwerth economaidd i fyfyrwyr yr RPA gan fod cyfranogwyr gwirfoddol yn gweld gwerth y polisi ar gyfer cydymffurfiaeth o 30% ychydig o dan £50m. Yn yr un modd, yn Nhabl 20 gwelwn, gan dybio bod cyfran is o fyfyrwyr yr RPA yn cymryd cymwysterau lefel 3 nag yn y grŵp cymharu, eu bod yn cyrraedd 66.7% o gyfradd y myfyrwyr gwirfoddol ond yn cael yr un elw ar y cymwysterau hyn, gyda'r gwerth am 30% o gydymffurfiaeth ychydig dros £80m.

Tabl 19: Amcangyfrif o fanteision economaidd yr RPA i 18 yng Nghymru ar gyfer y garfan sy'n cwblhau CA4 yn 2020, dadansoddiad senario amgen: cyfradd cydymffurfio a chyrhaeddiad, prisiad economaidd uwch cymwysterau

Llwybrau cymhwyster: yn unol â'r grŵp cymharu

	66.7% o gyfradd cyrhaeddiad			50% o gyfradd cyrhaeddiad		
Cydymffurfiaeth	Bechgyn	Merched	Cyfanswm	Bechgyn	Merched	Cyfanswm
5%	£11.2m	£5.6m	£16.8m	£8.4m	£4.2m	£12.6m
15%	£21.2m	£13.2m	£34.4m	£16.0m	£9.8m	£25.6m
30%	£44.8m	£27.0m	£71.8m	£31.0m	£18.8m	£49.6m
50%	£84.4m	£54.4m	£138.8m	£57.6m	£36.6m	£94.0m
100%	£197.8m	£137.2m	£335.0m	£138.2m	£93.6m	£231.8m

Ffynhonnell: Data cyfunol o bob cam modelu. Rhagdybiaethau yn unol â'r senario canolog ond gyda chymwysterau'n cael eu prasio'n 100% o'r gwerth economaidd i gyfranogwyr gwirfoddol, a'r gyfradd cydymffurfio a chyrhaeddiad yn amrywio.

Tabl 20: Amcangyfrif o fanteision economaidd yr RPA i 18 yng Nghymru ar gyfer y garfan sy'n cwblhau CA4 yn 2020, dadansoddiad sensitifrwydd: llwybrau cydymffurfio a chymwysterau, gwerth economaidd uwch cymwysterau

Cyfradd cyrhaeddiad: 66.7%

	Pob llwybr galwedigaethol			ostyngwyd llwybrau Lefel 3		
Cydymffurfiaeth	Bechgyn	Merched	Cyfanswm	Bechgyn	Merched	Cyfanswm
5%	£12.2m	£6.6m	£18.8m	£11.6m	£5.8m	£17.4m
15%	£28.2m	£17.2m	£45.4m	£24.8m	£14.2m	£39.0m
30%	£60.0m	£41.8m	£101.8m	£51.4m	£29.6m	£81.0m
50%	£108.4m	£76.2m	£184.6m	£92.8m	£55.0m	£147.8m
100%	£239.2m	£171.2m	£412.4m	£216.6m	£141.4m	£358.0m

Ffynhonnell: Data cyfunol o bob cam modelu. Rhagdybiaethau yn unol â'r senario canolog ond gyda chymwysterau'n cael eu prasio'n 100% o'r gwerth economaidd i gyfranogwyr gwirfoddol, a chydymffurfio a llwybrau cymwysterau'n amrywio. Mae cyfranogiad Lefel 3 yn cael ei leihau drwy symud y cyfan ar llwybrau galwedigaethol L3 i llwybrau galwedigaethol L2 a thrwy symud yr isaf eu cyrhaeddiad ar CA4 o llwybrau academiaidd L3 i llwybrau academiaidd L2. Mae hyn yn arwain at gyfran y myfyrwyr RPA sy'n dilyn cyrsiau lefel 3 yn gostwng o 59% i 25% ar gyfer bechgyn ac o 75% i 37% ar gyfer merched.

Trafodaeth

Mae'r ymarfer modelu yn yr adroddiad hwn yn ceisio amcangyfrif effeithiau'r RPA mewn addysg neu hyfforddiant i 18 yng Nghymru. Y garfan ffocws yw'r bobl ifanc a gwblhaodd CA4 yn 2020, gyda'r amcangyfrifon cyfatebol ar gyfer carfanau 2021 a 2022 wedi'u cynnwys yn yr atodiad. Roedd yr effeithiau a amcangyfrifwyd yn cynnwys nifer o gamau modelu i amcangyfrif:

- nifer y cyfranogwyr ychwanegol sy'n gorfod aros mewn addysg neu hyfforddiant oherwydd y polisi;
- y llwybrau cymhwyster y byddent yn eu dilyn;
- y cyraeddiadau y byddent yn eu cyflawni erbyn diwedd blwyddyn 13 (yn ychwanegol at yr hyn yr ydym yn amcangyfrif y byddent yn ei gyflawni yn absenoldeb y polisi); a
- gwerth economaidd y cyraeddiadau ychwanegol hyn.

Mae'r gwerthoedd economaidd yn deillio o gynhyrchiant uwch a mwy o debygolrwydd o gyflogaeth sy'n deillio o gyflawni cymwysterau ychwanegol.

Ar gyfer carfanau yn y dyfodol ac ar gyfer y rhai diweddaraf sy'n cwblhau CA4 nid ydym yn gwybod eu dewisiadau ar ôl 16 ac felly mae angen amcangyfrif y cyfraddau cyfranogiad gwirfoddol yn seiliedig ar batrymau carfanau blaenorol. At hynny, drwy ddiffiniad, dewis cyntaf y rhai nad ydynt yn parhau mewn addysg neu hyfforddiant ôl-16 yw gadael y system addysg, ac felly'r angen i wneud tybiaethau er mwyn modelu'r llwybrau cymhwyster yr ydym yn disgwyl i'r cyfranogwyr ychwanegol hyn eu cymryd, a'r cyraeddiadau y byddent yn eu cyflawni erbyn diwedd blwyddyn 13. Yn hollbwysig, rhaid inni hefyd wneud rhagdybiaeth ynghylch i ba raddau y bydd yr unigolion hyn – sydd wedi ymddieithrio â'r system addysg ac a fyddai'n dewis gadael – yn cydymffurfio â'r polisi ei hun.

Mae'r tybiaethau hyn yn golygu bod llawer iawn o ansicrwydd o ran manteision y polisi a amcangyfrifir o ran y cyraeddiadau ychwanegol a'u gwerth economaidd.

Er ein bod yn cydnabod yr ansicrwydd hwn, rydym yn seilio ein hamcangyfrifon senario canolog ar yr hyn a gredwn yw'r set fwyaf dibynadwy o werthoedd o ystyried y sylfaen dystiolaeth yn y maes hwn. Ar gyfer y senario canolog hwn, amcangyfrifwn fudd o £35.9m ar gyfer y garfan sy'n cwblhau CA4 yn 2020.

Mae'r dadansoddiad senarios amgen yn rhoi ystod o amcangyfrifon o £6.3m i £92.3m os tybiwn fod cydymffurfiaeth rhwng 15% a 50% ac os amrywir paramedrau eraill megis cyfradd cyrhaeddiad cymwysterau neu'r llwybrau y byddai myfyrwyr yr RPA yn eu dewis. Os byddwn yn gwneud y dybiaeth fwy arwrol ymhellach fod yr

adenillion oes ar gymwysterau yr un fath ar gyfer myfyrwyr RPA ag y mae ar gyfer myfyrwyr sy'n aros yn wirfoddol mewn addysg ôl-16 (yn hytrach na 50% o'r adenillion hyn), yna daw'r ystod senarios amgen hon yn £12.6m i £184.6m. Am ba werth bynnag a ddewiswn ar gyfer graddio gwerth yr enillion economaidd, mae'r dadansoddiad yn dangos mai **amrywio cydymffurfiaeth â'r polisi sy'n cael yr effaith fwyaf ar yr amcangyfrif o gyraeddiadau ychwanegol ac felly ar y gwerth economaidd ychwanegol**. Er enghraifft, mae lefel cydymffurfio o 15% yn hytrach na'r 30% a dybiwn o dan set o dybiaethau ein senario canolog yn lleihau gwerth economaidd y polisi o £35.9m i £17.2m. Mae cynnwys mwy o fyfyrwyr ar lwybrau galwedigaethol neu ar gyrsiau lefel 2 yn hytrach na lefel 3 yn cynyddu'r gwerth economaidd, ond nid cymaint ag y mae cynyddu cydymffurfiaeth â'r polisi, yn enwedig i 30% neu uwch.

O ystyried pwysigrwydd y tybiaethau sylfaenol ar gyfer unrhyw gasgliadau ynghylch gwerth y polisi, rydym yn ofalus i wneud yr hyn a gredwn yw'r tybiaethau mwyaf realistig ar gyfer ein senario canolog. O ystyried y patrymau cyfranogiad sefydlog ac aelodaeth grŵp dros garfanau diweddar, credwn y bydd yr amcangyfrifon o nifer y myfyrwyr yr effeithir arnynt yn gywir iawn. Yn wir, yn Nhabl 3 gallwn weld, ar gyfer y blynnyddoedd lle rydym yn gwybod nifer y myfyrwyr ym mhob grŵp a hefyd y rhagfynegiad enghreifftiol, fod ein gwerthoedd a ragwelir i gyd o fewn 1% i 2.5% o'r gwerthoedd gwirioneddol ar gyfer grwpiau 1-3 – dim ond yng ngrŵp 4 lle mae nifer y myfyrwyr yn llawer llai mae mwy o wallau. Credwn hefyd mai set o dybiaethau ein senario canolog ar gyfer cyfran y swyddi a fyddai'n troi'n brentisiaethau lefel 2, dosbarthiad y myfyrwyr RPA eraill ar draws llwybrau cymwysterau, eu cyfraddau cyrhaeddiad a gwerth economaidd cymharol eu cyraeddiadau yw'r senario mwyaf realistig. Mae'r dystiolaeth ansoddol yn y maes hwn yn awgrymu bod 25% o swyddi'n troi'n brentisiaethau yn ffigur rhesymol. Gan mai dim ond ar 25% o fyfyrwyr grŵp 3 yr amcangyfrifwn eu bod mewn swyddi heb hyfforddiant ffurfiol yn absenoldeb y polisi y mae hyn yn effeithio, byddai effaith newid y dybiaeth hon yn fach iawn.

O ran y llwybrau cymhwyster a ddewiswyd gan fyfyrwyr yr RPA, y grŵp cymharu o fyfyrwyr a ddefnyddir i amcangyfrif hyn yw'r rhai yng ngrŵp 1 sydd â thebygolrwydd isel o aros mewn addysg neu hyfforddiant am ddwy flynedd ychwanegol ond sy'n gwneud hynny serch hynny, ac o fewn hyn y rhai a ddiffinnir gan gymhwysterau gydol oes am brydau ysgol am ddim a chyrraedd blaenorol yn CA4. Mae'r grŵp hwn wedi'i baru'n dda ar nodweddion y gellir eu gweld â myfyrwyr yr RPA, yn enwedig y rhai yng ngrŵp 3, felly mae'n rhesymol tybio bod y dewisiadau y byddai myfyrwyr yr RPA yn eu gwneud dros gyrsiau yn debygol o fod yn debyg i'r grŵp hwn. Am yr un rhesymau, nid yw'r dybiaeth bod myfyrwyr RPA yn cyrraedd 66.7% o gyfradd myfyrwyr y grŵp cymharu sydd â'r un nodweddion cyrraedd a chefnidir blaenorol yn fras, yn ymddangos yn rhy arwrol. Yn y ddau achos, rydym yn cymharu myfyrwyr

yr RPA â chyfranogwyr gwirfoddol sy'n amlwg o debyg, ond ni allwn ystyried y gwahaniaethau heb eu gweld rhwng y grwpiau o fyfyrwyr a allai fod yn bwysig wrth bennu eu llwybrau cymhwyster a'u cyraeddiadau. Mae'r dadansoddiad senario amgen yn awgrymu bod newid y llwybrau a'r cyfraddau cyrhaeddiad yn cael rhywfaint o effaith ar nifer y cyraeddiadau ychwanegol o dan y polisi ond nid cymaint ag amrywiad o ran cydymffurfio. Nid ydym o'r farn bod y tybiaethau cyrhaeddiad a llwybrau yn y senario canolog yn arbennig o sensitif i'r tybiaethau rhesymol amgen hyn.

Mae'r dybiaeth mai dim ond 50% o'r hyn ar gyfer cyfranogwyr gwirfoddol yw gwerth economaidd y cymwysterau ar gyfer myfyrwyr yr RPA yn mynd gryn ffordd i fynd i'r afael â ffactorau na ellir eu gweld sy'n wahanol rhwng myfyrwyr yr RPA a'r rhai sy'n ymgymryd â'r cymwysterau fel eu dewis cyntaf o gyrchfan ôl-16. Yn y llenyddiaeth economeg llafur ar ddychwelyd i addysg, mae modelau atchweliad nodweddiadol gan gynnwys nifer fawr o nodweddion cefndir yn ogystal â lefel addysg, yn esbonio rhwng 25% a 40% o'r amrywiad mewn enillion (gweler Harmon a Walker, 1995; Dickson, 2013). Mae ffactorau na ellir eu gweld yn amlwg yn chwarae rhan bwysig wrth bennu'r elw economaidd i gymwysterau. Felly, gan dybio bod gan y rhai sy'n dewis cymwysterau'n wirfoddol ffactorau cyfalaf dynol heb eu gweld sy'n cynyddu eu gwerth economaidd yn ychwanegol at effaith achosol y cymwysterau eu hunain, credwn ei bod yn rhesymol tybio mai dim ond 50% o'r hyn a welwyd ymhlith cyfranogwyr gwirfoddol yw'r enillion economaidd ar gyfer cymwysterau a gyflawnir gan fyfyrwyr yr RPA. Pe byddem am wneud y dybiaeth gryfach bod gwerth cymwysterau, wedi eu cyflawni, yr un fath ag y mae ar gyfer cyfranogwyr gwirfoddol, mae hyn yn golygu dyblu'r amcangyfrif o werthoedd economaidd ar gyfer pob senario (yn unol â Thablau 19 ac 20). Gellir cyfrifiannu'r gwerth sy'n gysylltiedig â'r polisi ar gyfer unrhyw ragdybiaeth ynghylch y berthynas rhwng yr enillion i fyfyrwyr gwirfoddol a'r enillion i fyfyrwyr yr RPA ar gymwysterau drwy raddio'r ffigurau yn Nhablau 19 ac 20.

Mae'r dadansoddiadau senario canolog ac amgen yn darparu ystod eang o ganlyniadau posibl o bolisi'r RPA, yn dibynnu ar y tybiaethau a wnaed ar bob cam o'r modelu. Bydd pa ragdybiaethau sydd fwyaf priodol yn dibynnu'n rhannol ar y ffordd y caiff polisi'r RPA ei weithredu ac unrhyw bolisiau ategol eraill a gyflwynir ochr yn ochr ag ef. Y dybiaeth bwysicaf ar gyfer pennu gwerth y polisi yw lefel y cydymffurfio a gyflawnwyd a fydd ei hun yn dibynnu ar y cynnig addysg a hyfforddiant ôl-16 sydd ar gael (gweler Maguire, 2021). Ar hyn o bryd, nid yw'r rhai y byddai polisi'r RPA yn effeithio arnynt yn gweld mantais parhau mewn addysg neu hyfforddiant yn unrhyw un o'r llwybrau sydd ar gael. Os nad yw'r cynnig wedi newid, mae'r dystiolaeth ansoddol yn awgrymu ei bod yn annhebygol y bydd y myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio y mae'r polisi yn effeithio arnynt yn cydymffurfio'n wirfoddol mewn

niferoedd mawr. Ymhlith y rhai sy'n gwneud hynny, bydd cyflawni cyfraddau cyrhaeddiad o hyd at 66.7% o gyfradd y myfyrwyr gwirfoddol unwaith eto yn dibynnu'n rhannol ar yr opsiynau sy'n cael eu cynnig a'r cymorth ychwanegol sydd ar gael i'r myfyrwyr hyn.

Mae'n werth nodi mai'r gwerth economaidd a amcangyfrifir yw gwerth y cyraeddiadau ychwanegol yn ychwanegol at yr hyn a ddisgwyliid yn absenoldeb y polisi, ond yn bwysig nid ydym yn ystyried costau darparu'r addysg ychwanegol, felly mae ein hamcangyfrif canolog o £35.9m yn cynrychioli'r manteision economaidd gros. Amcangyfrif yn unig yw hwn hefyd o werth economaidd y cynnydd mewn cynhyrchiant sy'n gysylltiedig â'r polisi – nid yw'n ystyried unrhyw fanteision ychwanegol o gynyddu cyfranogiad a chyrhaeddiad o ran iechyd, lles, cynhwysiant cymdeithasol, cyfranogiad dinesig a llai o drosedd.

Nid yw effaith yr RPA yn Lloegr i 17 yn 2013 ac yna hyd at 18 yn 2015 ar gyrhaeddiad wedi'i gwerthuso'n llawn eto ond gallwn edrych ar effaith codi'r oedran gadael ysgol isaf yn flaenorol i 16 yn y DU ym 1972, gan gofio'r gwahaniaethau rhwng RPA a chodi polisiâu oedran gadael yr ysgol (RoSLA). Fel yn yr RPA, roedd polisi RoSLA yn gorfodi myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio a'u dewis cyntaf oedd gadael addysg yn 15 oed i aros am flwyddyn ychwanegol. Astudiwyd effeithiau'r polisi hwn ar gyrhaeddiad addysgol a chanlyniadau dilynol y farchnad lafur yn helaeth (gweler Buscha a Dickson, 2012, 2015; Dickson, 2013; Dickson a Smith, 2011; Grenet, 2013; Delaney a Devereux, 2018) a'r consensws yw bod mynnu bod y bobl ifanc hyn a oedd wedi dadrithio yn aros mewn addysg wedi arwain at gynydd mewn cyrhaeddiad yn 16 oed (TAU) a hefyd wedi arwain at fwy o enillion oes. Yn wir, mae'r llenyddiaeth yn awgrymu mai'r cymwysterau ychwanegol a gyrhaeddwyd sy'n gyrru'r rhan fwyaf o'r adenillion i'r flwyddyn addysg ychwanegol (Dickson a Smith, 2011; Grenet, 2013). Mae'n werth nodi fod llai o bobl ifanc wedi ennill cymwysterau academaidd adeg RoSLA 1972 a fyddai'n cynyddu gwerth economaidd y cymwysterau hyn i fyfyrwyr a'u henillodd o ganlyniad i'r polisi. Hyd yn oed gyda'r cafeut hwn, mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gall polisiâu tebyg i'r RPA, sy'n targedu poblogaethau tebyg o fyfyrwyr, gael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad cymwysterau a bod gwerth economaidd hirdymor i'r cymwysterau ychwanegol hyn. Mae hyn yn cefnogi ein rhagdybiaethau y byddai myfyrwyr yr RPA yn ennill nifer gadarnhaol o gymwysterau ychwanegol, er nad aros mewn addysg yw eu dewis cyntaf, ac y bydd y cymwysterau hyn yn dwyn elw economaidd yn y dyfodol.

Mae'r llenyddiaeth hefyd yn canfod effeithiau cadarnhaol yr addysg ychwanegol sy'n deillio o gynydd blaenorol yn yr oedran gadael ysgol ar iechyd (Davies et al., 2018; Janke et al., 2020), trosedd (Machin et al., 2011), beichiogrwydd cynnar (Silles, 2011) a chyrhaeddiad addysgol y genhedlaeth nesaf (Dickson et al., 2016). O'r

herwydd, mae polisiâu sy'n cynyddu cyrhaeddiad addysgol yn debygol o greu effeithiau cadarnhaol mewn nifer o feysydd nad ydynt yn rhai marchnad lafur.

Fodd bynnag, er bod RoSLA yn amlwg yn bolisi cysylltiedig, mae'n hanfodol nodi, yn wahanol i'r RPA, ei fod yn cynrychioli newid sylfaenol i addysg uwchradd orfodol, gyda blynyddoedd o waith paratoi a buddsoddi mewn adnoddau a seilwaith. At hynny, gorfodwyd cydymffurfiaeth â RoSLA yn gyfreithiol ac mae'r llenyddiaeth yn awgrymu lefel agos at lefel gyfan gwbl o gydymffurfiaeth â'r polisi. Felly, mae'r enillion a amcangyfrifir ar gyfer RoSLA yn cyfateb i'n senarios cydymffurfio 100%. O ystyried y cyd-destun sefydliadol gwahanol ar gyfer yr RPA, a'r dystiolaeth ansoddol ar y grŵp o fyfyrwyr y bydd y polisi'n effeithio arnynt, mae'n annhebygol iawn y bydd lefelau uchel o gydymffurfiaeth yn cael eu cyflawni, felly rhaid i unrhyw gymhariaeth ag effeithiau RoSLA fod yn ofalus iawn.

Mae hefyd yn bwysig iawn nodi bod y mwyafrif llethol o'r cyraeddiadau a'r manteision economaidd o ganlyniad i'r RPA yn ymwneud â chyrhaeddiad ychwanegol y grŵp o fyfyrwyr a fyddai'n dewis peidio â chymryd rhan yn y naill flwyddyn neu'r llall yn absenoldeb RPA. O'r ymchwil ansoddol yn y maes hwn gwyddom mai'r myfyrwyr hyn (tua 9% o bob carfan, neu tua 2,500 o fyfyrwyr) yw'r rhai sydd wedi ymddieithrio fwyaf gyda'r system addysg ac sy'n anoddaf eu cyrraedd. Mae hyn yn tynnu sylw at y cryn ansicrwydd ynghylch effeithiau'r polisi a amcangyfrifir – pe bai dim ond lefel isel o gydymffurfio ymhlith y grŵp hwn yn cael ei chyflawni, yna bydd y cyraeddiadau ychwanegol a'r gwerthoedd economaidd cysylltiedig yn fach iawn yn wir. Hyd yn oed gyda 30% o gydymffurfio, amcangyfrifir mai dim ond 1.4% y bydd gwerth economaidd ychwanegol cyraeddiadau'r RPA yn ei ychwanegu at werth cymwysterau y byddai carfan CA4 2020 yn eu cyflawni ar ôl 16 yn absenoldeb y polisi.

Yr allwedd i'r polisi sy'n sicrhau elw economaidd, ac unrhyw enillion eraill, yw i ba raddau y mae pobl ifanc y mae'n effeithio arnynt yn cael eu hailgysylltu â'r system addysg a chynnig sy'n apelio, fel eu bod yn cydymffurfio'n wirfoddol â'r gofynion polisi i barhau mewn addysg a hyfforddiant i 18 oed yn hytrach na'u herio. Heb gynnig addysg a hyfforddiant gwell sy'n apelio at y myfyrwyr sy'n gwrthod yr opsiynau ôl-16 sydd ar gael ar hyn o bryd, bydd yn anodd iawn cyflawni'r math o gyfranogiad sydd ei angen i gynyddu lefelau cyrhaeddiad cyffredinol a gwireddu'r gwerthoedd economaidd posibl a amcangyfrifir yn y dadansoddiad hwn.

Casgliad

Yn yr adroddiad hwn rydym yn amcangyfrif effeithiau'r RPA mewn addysg neu hyfforddiant i 18 yng Nghymru, gan fesur yr effaith ar nifer y cyfranogwyr a'u cyraeddiadau addysgol. Ar gyfer y garfan a gwblhaodd CA4 yn 2020, mae'r senario canolog yn awgrymu y byddai 900 o fyfyrwyr ychwanegol mewn addysg neu hyfforddiant ym mlwyddyn 12 a 1,800 ym mlwyddyn 13. Byddai'r ychwanegiad at y cyraeddiadau a gyflawnwyd tuag 1.0% yng nghyfraeddiadau'r garfan o 2 Safon Uwch neu fwy, a 2.5% o gynnydd o ran cyrhaeddiad y trothwy TGAU allweddol, o'i gymharu â'r hyn a fyddai'n cael ei gyflawni gan y garfan yn y ddwy flynedd ôl-16 yn absenoldeb y polisi. Amcangyfrifir mai tua £36 miliwn fyddai manteision economaidd yr holl gymwysterau academaidd a galwedigaethol ychwanegol, sef cynnydd o tua 1.4% ar werth oes o £2.55 biliwn y cyraeddiadau academaidd y byddem yn disgwyl i'r garfan hon eu cyflawni ym mlynnyddoedd 12 a 13 yn absenoldeb RPA.

Fodd bynnag, mae llawer iawn o ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrif canolog hwn, a yrrir yn bennaf gan yr effaith y mae newid cydymffurfiaeth yn ei chael ar yr amcangyfrif o'r cyraeddiadau o dan yr RPA. Byddai cynyddu cydymffurfiaeth i 50% yn golygu y byddai nifer y cyfranogwyr newydd yn cynyddu i ryw 1,500 ym mlwyddyn 12, a 3,000 ym mlwyddyn 13, ac yn arwain at gymwysterau ychwanegol gwerth £70m (cynnydd o 2.7% ym mhriiad economaidd oes y garfan o gymwysterau). Yn yr un modd, mae amrywio tybiaethau enghreifftiol eraill yn effeithio ar y cyraeddiadau rhagamcanol a'u gwerth: mae cadw cydymffurfiaeth o 30% ond gostwng cyfradd cyrhaeddiad cymwysterau gan fyfyrwyr yr RPA o 66.7% o'r gyfradd wirfoddol, i ddim ond 50% o'r gyfradd honno, yn gysylltiedig â chymwysterau ychwanegol gwerth tua £25m y garfan.

Mae'r amcangyfrif senario canolog o gynnydd o 1.4% yng ngwerth economaidd cyraeddiadau'r garfan yn dibynnu ar y dybiaeth bod lefel cydymffurfio o 30% yn cael ei chyflawni. Nid yw hyn yn sicr o ystyried mai'r grŵp yr effeithir arno yw'r rhai sydd wedi ymddieithrio fwyaf gydag addysg a'r anoddaf i'w cyrraedd drwy ymyriadau polisi cyffredinol. Er ei bod y tu hwnt i gwmpas yr adroddiad hwn ystyried effeithiolrwydd polisiâu eraill yn gyffredinol, mae'r modelu yn y papur hwn yn gydnaws â pholisiâu eraill sy'n anelu at gynyddu cyfranogiad, os dehonglir 'cydymffurfiaeth' fel cyfran y myfyrwyr sy'n cymryd rhan mewn blynyddoedd ychwanegol o addysg o ganlyniad i bolisiâu amgen. Bydd hyn yn berthnasol o ystyried y byddai'r ymchwil ansoddol yn y maes hwn (gweler Maguire, 2021) yn awgrymu y gallai ailgysylltu â'r rhai nad ydynt yn gyfranogwyr ôl-16 gael ei gyflawni'n well gan bolisiâu amgen sy'n targedu mwy o gyfranogiad gwirfoddol yn benodol yn hytrach na pholisi cyfranogiad gorfodol sydd,

oni bai bod set fwy deniadol o opsiynau ôl-16 yn cyd-fynd ag ef, yn annhebygol o arwain at lefel uchel o gydymffurfiaeth.

Cyfeiriadau

Buscha, F., a Dickson, M. (2012). **Raising the School Leaving Age: Returns in Later Life**. Economics Letters, 117, 389-393.

Buscha, F., a Dickson, M. (2015). **The wage returns to education over the life-cycle: Heterogeneity and the role of experience**. IZA Discussion Paper no.9596.

Davies, N., Dickson, M., Davey Smith, G., van den Berg, G., a Windmeijer, F. (2018). **The Causal Effects of Education on Health, Mortality, Cognition, Well Being, and Income: Evidence from the UK Biobank**. Nature Human Behaviour, 2, 117-125.

Delaney, J., a Devereux, P. (2019). **More Education, Less Volatility? The Effect of Education on Earnings Volatility over the Life Cycle**. Journal of Labor Economics, 37(1), 101-137.

Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (2011). **Returns to Intermediate and Low Level Vocational Qualifications**. BIS Research Paper no. 53.

Yr Adran Addysg. (2016). **Participation of young people in education, employment or training. Statutory guidance for local authorities**. DFE-00255-2016. Wedi'i gael o:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/561546/Participation-of-young-people-in-education-employment-or-training.pdf

Dickson, M. (2013). **The Causal Effect of Education on Wages Revisited**. Oxford Bulletin of Economics and Statistics, cyf. 75(4), 477-498.

Dickson, M, Gregg, P., a Robinson, H. (2016). **Early, late or never – when does parental education impact child outcomes?** The Economic Journal, 126, F184-F231.

Dickson, M., a Smith, S. (2011). **What Determines the Return to Education: an extra year or a hurdle cleared?** Economics of Education Review, 30(6), 1167-1176.

Grenet, J. (2013). **Is extending compulsory schooling alone enough to raise earnings? Evidence from French and British compulsory schooling laws**. The Scandinavian Journal of Economics, 115(1), 176-210.

Harmon, C., a Walker, I. (1995). **Estimates of the economic return to schooling for the United Kingdom**. American Economic Review 85(5), 1278-1286.

Hayward, H., Hunt, E., a Lord, A. (2014). **The economic value of key intermediate qualifications: estimating the returns and lifetime productivity gains to GCSEs, A levels and apprenticeships**. Yr Adran Addysg, Adroddiad Ymchwil rhif DFE-RR398A.

